



Ffarwelio â'r Angel Felen



Y diwrnod olaf o hyfforddiant gyda'r RAF. Aelodau o dimau achub mynydd Llanberis, Ogwen, Aberglaslyn, Aberdyfi a De Eryri.



Hofrennydd gwasanaeth newydd.

ECO'r Wyddfa

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2015			
Rhifyn Medi	Copi i law Awst 16	Bwndelu Awst 28	Ble Llanrug

RHIF 434
Gorffennaf/Awst 2015
 Argraffwyd gan
 Wasg Dwyfor
 Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Straeon ac erthyglau
ar e-bost i**
Dafydd Whiteside Thomas
Bryn y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH
 Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
 Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
 (01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
 Gwynnaf Hughes, Hafan,
 Llanrug (672221)
 glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
 Rhian Elin George, Swn yr Engan,
 Brynrefail (01286) 872306
 ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL
 Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
 Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
 Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
 Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU
 Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
 Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI
DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)
BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
 (01248) 670726
BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts,
 Godre'r Coed (870580)
CAEATHRO: Rhiannon Roberts,
 Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
 rhiannonmai@btinternet.com
CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
 Bodafon, Ceunant (650799)
CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
 Glanrafon (872275)
DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
 Roberts, Swŷn-y-Gwynt (870740)
LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
 Moelyn (675384)
NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
 neu econantperis@hotmail.com
PENISARWAUN:
 ecopenisarwaun@hotmail.co.uk
WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
 Pantafon, Waunfawr (650570)

gosodwyd gan

grid 
 dylunio graffeg
 07766956673

LLYTHYRAU

Annwyl Eco'r Wyddfa
 Ysgrifennaf i hysbysu eich darllenwyr am Grantiau Datblygu
 Cymunedol Grŵp Cynefin.
 Pwrpas y Grant yw ariannu prosiectau gan grwpiau cymunedol
 yn ardal weithredol Grŵp Cynefin i wella ansawdd bywyd
 cymunedau lleol.
 Byddai unrhyw waith fyddai yn gwella, hwyluso a gwneud ardal
 neu gymuned yn fwy pleserus i fyw ynddi yn cymhwyso.
 £500 yw'r uchafswm grant sydd ar gael i bob grŵp.
 Dyddiadau cau eleni yw 17 Gorffennaf, 18 Medi a 18 Rhagfyr.
 Mae croeso i unrhyw grŵp gysylltu i gael sgwrs am eu syniad
 ar 01286 889222: bethan.thomas@grwpcynefin.org neu Ben
 Gregory ar 01286 889214 ben.gregory@grwpcynefin.org
 Yn gywir, Bethan Thomas, Swyddog Cymuned

Cymanfa Gymraeg Tystion Jehofa

Beth bynnag yw eich cefndir, crefydd, neu ddiwylliant, mae
 Tystion Jehofa yn estyn gwahoddiad cynnes i ddarllenwyr
 Papur Bro Eco'r Wyddfa i ddod i'w Cymanfa Gymraeg yn yr
 ACC (Arena and Conference Centre) Lewpwl ar Awst 7, 8 a 9.
 2015. Thema'r Gymanfa eleni yw 'Efelychu Iesu'. Drwy gyfrwng
 sgysiaiu, arddangosiadau a dramâu lliwgar fe ddaw lles efelychu
 esiimpl Iesu a rhoi ei ddysgeidiaeth ar waith yn ein byw bob
 dydd, i'r amlwg. Y Bregeth ar y Mynydd fydd sail trafodaeth yn
 dangos sut gall esiimpl Iesu helpu rhieni i feithrin amgylchfyd
 cariadus yn y cartref a chryfhau undod y teulu. Uchafbwynt bore
 Sul fydd yr anerchiad: 'Iesu Grist, Gorchfygwr y Byd'.

Diwedd Clwb Rotari Caernarfon

Annwyl Ddarllenwyr,
 Gyda pheth tristwch a phryder daeth Clwb Rotari Tref Frenhinol
 Caernarfon i ben Dydd Llun Mai 19eg 2015, ar ôl cyfnod o
 wythdeg o flynyddoedd. Bu'r aelodau yn weithgar iawn yn y Dref
 ac yn yr ardaloedd cyfagos ac fe roddwyd cefnogaeth i lawer iawn
 o achosion da yn ystod y cyfnod yma. Fe gasglwyd miloedd o
 bunnoedd at achosion da yn y Dref a'r cylch a hefyd at achosion
 rhyngwladol. Fe benderfynwyd dod a'r Clwb i ben gan ein bod
 wedi methu a denu aelodau ifanc newydd i'r Clwb. Mae hyn yn
 adlewyrchiad o sut mae pethau yn gymuned ar hyn o bryd.
 Mae'r Clwb yn ddiolchgar i frodorion y Dref a'r Cylch am yr holl
 gefnogaeth a dderbyniwyd dros y blynyddoedd.

Yn gywir iawn,
 Dafydd J Jones. Ysgrifennydd.
 D Rhys Prytherch. Gohebydd y Wasg.

Apêl Seindorf Arian Deiniolen

Pencampwriaeth Bandiau Pres Prydain Fawr, Cheltenham 2015
 Pleser o'r mwyaf i'r Band yw cael cynrychioli Cymru yn y
 gystadleuaeth uchod eleni. Mae hyn yn ffraind fawr i fand o bentref
 mor fach â Deiniolen ond mae hyn yn rhoi problem i ni hefyd, sef
 y gost ariannol mae yn ei olygu.
 Os oes unrhyw un yn teimlo y buasent yn hoffi cyfrannu i'n
 helpu tuag at y costau, byddwn yn hynod o falch o dderbyn eich
 cyfraniad, boed yn fawr neu yn fach.
 Mae hon hefyd yn flwyddyn fawr iawn i'r band gan ein bod
 yn dathlu ein pen-blwydd yn 180 oed, ond mae dyfodol ein
 cymdeithas mewn dwylo da iawn, gyda'r Adran Ieuenctid yn gryf
 iawn gyda o gwmpas 50+ o aelodau.
 Diolch yn fawr iawn i chi am ddarllen ein apêl a gobeithiwn y gall
 yr ardal ein cefnogi unwaith eto.

Ar ran y band
 Meirion Jones (Ysg) - Rhif ffôn: 01286 870452

RHODDION

**Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru**

£25: Llifon a Bethan
 Jones, 1 Bryn Difyr,
 Cwm-y-glo

£20: Colin a Val Jones,
 Bryn Gelli, Llanberis;
 Ann ac Idris Thomas,
 Glanrafon, Deiniolen

£13: Di-enw Tan-y-Coed

£10 Helen Morris,
 Ffordd Capel Coch,
 Llanberis; Marian
 Thomas, Trawsfynydd
 (gyda ymddiheuriad am
 beidio ei gynnwys yn
 rhifyn Mai); Carys Jones,
 Cae Eboni, Penisarwaen;
 Mrs Eileen Williams, 10
 Afon Rhos, Llanrug; Mrs
 Elsie Owen, Hafod-y-
 Rhos, Llanrug; Mrs Enid
 Williams, 15 Rhos Rug,
 Llanrug; Er cof am Mrs
 Sheila Roberts, Llwyn
 Celyn, Waunfawr gan
 Lynn, Tony ac Eira.

£5: Alice Jones, Tan-Y-
 Bryn, Beddgelert; Môn
 roddion o Ddinorwig

KEVIN DAVIES
Plastrwr Profiadol

Pob math o waith
 cynnal a chadw
 - mewnol ac allanol
Amcan-bris am ddim

Ffôn: 01286 650655
Ffôn symudol:
07918733510
 e-bost: kevindavies6287@gmail.com

Taith olaf dros Yr Wyddfa



Gadael Y Fali Diwedd ar gyfnod a'r gobaith i'r dyfodol.

Dechreuodd 22 Sgwadron ddarparu gwasanaeth Chwilio ac Achub o faes y Llu Awyr yn Y Fali ym mis Medi 1955. Yn ystod y blynyddoedd cynnar hofrennydd Whirlwind a ddefnyddiwyd ond 'roedd braidd yn fychan ac y brin o bŵer. Yn 1976, daeth y Wessex i wasanaeth 'roedd hon yn llawer mwy pwerus ac yn gallu codi llawer o bobl ac offer. Yn olaf yn 1997, gwelwyd dyfodiad y Sea King sy'n awyren llawer mwy o faint ac yn fwy tebol gyda'r gallu i weithio ym mhob tywydd. Bu'r tri math o hofrennydd yn gweithio'n gyson yn yr awyr uwchben Dyffryn Peris a'u lliw melyn llachar yn olygfa cyfarwydd i drigolion y fro am 60 mlynedd.

Er mwyn darparu'r gwasanaeth yn Y Fali ym mhob tywydd, 24 awr y dydd am 7 diwrnod trwy'r flwyddyn, gofynnir am lefel uchel o ymroddiad gan holl staff y sgwadron. Llwyddwyd i wneud hynny yn ddidor am 60 mlynedd. Er fod y personel wedi newid yn reolaidd dros y cyfnod, mae eu hymrwymiad i'w gwaith a'u cefnogaeth o'r gwasanaethau argyfwng yng Ngogledd Cymru a thu hwnt, i'w ryfeddu. Rhaid cofio mai priod waith y gwasanaeth yw diogelu bywyd, boed hynny ar y môr neu ar y tir ac iddynt gynnig cymorth amhrisiadwy i'r holl asiantaethau sy'n delio gyda digwyddiadau argyfwng. Yn gynharach eleni bu'r criw yn dathlu'r ffaith eu bod wedi troi allan at eu 10,000 ed. galwad.

Fel un o'r gwasanaethau argyfwng, mae dyled Tim Achub Mynydd Llanberis i aelodau'r sgwadron yn arbennig o fawr. Dros y blynyddoedd diwethaf mae nifer y galwadau i'r Tim wedi cyrraedd tua 200 y flwyddyn, ond mae criw y Sea King wedi cefnogi'r Tim gyda tua thraean o'r galwadau hynny. Gan gofio mai lles y claf sydd bwysicaf, a'i gael i'r ysbyty yn flaenoriaeth, gellir gwneud hynny llawer cynt gyda chymorth amhrisiadwy yr hofrennydd.

Ffurfiwyd Tim Mynydd Llanberis yn 1968 ac felly boom yn cydweithio am 45 o flynyddoedd gyda degau o griwau; ond yr un fu'r gefnogaeth, drwy safon uchel yr hedfan gan y peilotiaid, drwy eu lefel uchel o sgiliau i hedfan yn y mynyddoedd, yn aml yn gwneud hynny mewn tywydd heriol tu hwnt neu drwy ollwng unigolyn ar wyneb craig tra'n hofran ond droedfeddi o'i hwyneb. Wrth ollwng y 'winchman' a hyfforddwyd at lefel parafeddyg, 'roedd y claf yn sicr o dderbyn gofal proffesiynol o'r safon uchaf.

Wrth feddwl am ddyfodiad pob hofrennydd newydd, gwelwyd cynnydd yn eu maint a'u gallu i gario llwyth boed hynny yn bersonel neu yn offer ac yn eu tro bu achos i feddwl os oedd yr un newydd yn well na'r blaenorol. Ond gan amlaf dyma ganfyddwyd,

gyda mwy o le a phwer gan gynnig potensial uwch i gynorthwyo pob Tim Achub Mynydd.

Ar ddiwrnod olaf Mehefin eleni daw gwasanaeth Chwilio ac Achub y Llu Awyr gyda'r hofrennyddion melyn i ben yn Y Fali. Wedyn bydd cwmni hofrennyddion Bristow yn gyfrifol am redeg y gwasanaeth Chwilio ac Achub ar ran Gwasaneth Gwylwyr y Glannau. Maent wedi codi pencadlys newydd ar faes awyr Caernarfon yn Ninas Dinlle, yno cartrefir y Sikorsky S-92s newydd, yn ei lliwiau coch a gwyn. Maes o law bydd dwy hofrennydd yn gweithio allan o Ddinas Dinlle.

Wrth ysgrifennu hwn, mis wedi i'r Sikorsky gyrraedd Caernarfon, mae hofrennydd newydd sbon danlli cwmni Bristow yn hedfan uwchben fy nghartref ac mae ei swm a'i lliwiau coch a gwyn yn dechrau dod yn olygfa cyson wrth iddi fynd a dod i'w lleoliadau ymarfer gyda llu o asiantaethau sy'n awyddus i'w chroesawu ac i gydweithio gyda'r gwasanaeth newydd.

Fel unigolion yn gyffredinol ni ddesyfir newid, yn arbennig lle bu'r hyn a fu, yn llwyddianus ac effeithiol iawn; felly bu'r cydweithio gyda gwasanaeth y Llu Awyr a'r Sea King yn Y Fali. Mae elfen o dristwch wrth weld y gwasanaeth a'r criwiau parod eu cymwynas yn Y Fali yn dirwyn i ben gan fod gan aelodau'r Tim lu o atgofion am adegau cofiadwy wrth gydweithio gyda chriwiau'r Fali.

Hyderwn wrth edrych i'r dyfodol fod yr hofrennydd newydd, er mewn lliw gwahanol, yn fodern, yn fwy pwerus, yn fwy dibynadwy, yn gyflymach, yn llawn o dechnoleg electronig diweddaraf i ffeindio'i ffordd dan bron unrhyw amgylchiadau tywydd. Ond hefyd rhaid cofio ei bod yn cael ei llywio gan griw profiadol medrus, llawer ohonynt wedi trosglwyddo o'r Fali a safleoedd eraill y Llu Awyr. Felly edrychir ymlaen i'r dyfodol am gydweithio effeithiol gyda chriw hofrennydd lleol, sydd ond deg milltir o Ddyffryn Peris, gan obeithio y byddant yn parhau i ddarparu gwasanaeth proffesiynol a chyflym i'r rhai hynny sy'n mynd i drafferth ar Yr Wyddfa a'i chriw am yr hanner can mlynedd nesaf.

John Grisdale

Tim Achub Mynydd Llanberis

Gyda diolch i John Grisdale am yr hanes ac am rai o'r lluniau. Diolch hefyd i Edwin Roberts a Nora O'Brien am weddill y lluniau.

Buddugwyr Eisteddfod yr Urdd.



Y mis diwethaf llongyfarchwyd nifer o unigolion o ysgolion y fro am ennill gwobrau yng nghystadleuthau gwaith cartref Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerffili. Y mis hwn, estynnwn ein llongyfarchion i'r rhai fu'n llwyddiannus yn y cystadleuthau llwyfan, sef:

Cynradd.

- Ysgol Gynradd Llanrug – Nanw Haf Llwyd; 1af Unawd Chwythbrennau Blwyddyn 6.
- Ysgol Gynradd Dolbadarn, Llanberis – 2il Cân Actol.
- Adran Bentref Bethel – Elen Llestyn Thomas; 1af Unawd Pres Blwyddyn 6.
- Plant Caeathro oedd yn aelodau o Fand Blwyddyn 6 Ysgol Gynradd Bontnewydd a ddaeth yn 1af.



Uwchradd

- Ysgol Brynrefail
- Owain Llestyn Thomas; 1af Unawd Pres Blwyddyn 7-9.
- Leisa Gwenllian; 1af Llefaru Blwyddyn 7-9.
- Parti Llefaru; 1af Blwyddyn 7-9.
- Math Roberts, 2il ar Y Fedal Cyfansoddi ac 2il ar yr Unawd Piano dan 19 oed.
- Rachel Franklin, 2il Unawd Chwythbrennau Blwyddyn 7-9.
- Band yr Ysgol 2il.
- Adran Bentref Bethel – Angylion Kelly, 3ydd Dawnsio Disgo.
- Ysgol Tryfan – Mabon Llŷr o Ddinorwig, 3ydd Unawd Llinynnol dan 19 oed.



Yn ystod y mis aeth heibio

• Ar fore'r Sul cyntaf ym mis Mehefin gwawriodd un o drychinebau mwyaf y blynyddoedd diweddar ym mhentref Llanberis pan foddwyd dau yn nyfroedd y Ceunant Mawr. Roedd aelodau lleol o Dim Achub Mynydd Llanberis yno o fewn ychydig funudau, a'r gwasanaethau brys yn dilyn yn gyflym wedyn. Achubwyd dau o'r dyfroedd oer, ond er gwaethaf ymdrechion dewr, collwyd dau o ddynion ifanc lleol – un o Gaernarfon a'r llall o Ddinorwig. Cydymdeimlwn a'u teuluoedd yn y golled a ddaeth i'w rhan. Clodforwn hefyd y rhai hynny a fentrodd eu bywydau eu hunain i geisio achub y rhai aeth i drafferthion.

• Ychydig ddyddiau wedi'r digwyddiad, difrodwyd cerbydau y Tim Achub o flaen eu canolfan yn Nant Peris. Mae'n anodd dirnad beth sy'n ysgogi'r fath fandaliaeth. Hyd yn oed os caiff y drwgweithredwyr eu dal, ni all y gosb fyth ad-dalu'r golled ariannol i fudiad gwirfoddol na'r anhwylustod a achosodd.

• Daeth y newyddion (o'r diwedd) o'r modd y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ad-drefnu Llywodraeth Leol. Mae'n ymddangos mai yn ol i'r dyfodol fydd hi, gyda Gwynedd a Chlwyd yn cael eu hatgyfodi unwaith yn rhagor. Pan ddiflannodd yr hen siroedd gwreiddiol yn 1974 roedd addewid o "arbedion ariannol sylweddol" wrth greu dwy sir newydd enfawr yng ngogledd Cymru. Ond o fewn ychydig flynyddoedd fe ffurfiwyd y cynghorau lleol presennol, gyda'r addewid unwaith eto o "arbedion ariannol sylweddol". Mae'r ddadl honno'n cael ei defnyddio unwaith yn rhagor, a hawdd deall pam fod y trethdalwyr cyffredin yn holi pam fod cymaint o gwtogi ar wasanaethau yn sgil yr "holl arbedion ariannol sylweddol" a wnaethpwyd.

• Erbyn i rifyn nesaf yr "Eco" eich cyrraedd, bydd dalgyrch ein papur yn amddifad o fanc. Mae Banc HSBC Llanberis yn cau ei ddrysau ddiwedd Awst, ac er gwaethaf protestiadau gan wleidyddion am bwerau y cwmnïau mawrion, does nemawr ddim y gellir ei wneud i atal hyn rhag digwydd.

• Ychydig ddyddiau cyn dyddiad cau y rhifyn hwn, derbyniwyd adroddiad uniaith Saesneg gan y grwp 'Concerned about Glyn Rhonwy' (CAGR), yn gofyn am gael ei gynnwys yn y papur. Eglurwyd mai papur uniaith Gymraeg yw'r "Eco", ac nad oedd sicrwydd y gellid cyfieithu'r holl lith i'w gynnwys. Gan fod y grwp yn honni fod ganddynt dros chwe chant o aelodau, gofynnwyd a fyddai'n bosib i Gymry Cymraeg ymhlith yr aelodau anfon braslun o'u pryderon. A'r "Eco" yn barod i fynd i'r wasg, nid oedd ymateb i'r cais wedi dod. Er tegwch, gellir adrodd mai pryderon ynglyn a bygythiad i'r amgylchedd sydd gan CAGR, megis y cais i dynnu dwr o Lyn Padarn i gyflenwi'r cronfeydd dwr ar gychwyn y cynllun, peryglu cynefin nythu'r gwalch glas a'r fran goesgoch, a'r posibilrwydd fod bomiau (rhai yn cynnwys nwy nerfau) yn dal heb eu gwaredu o'r safle. Mae Sian Williams, swyddog o Cyfoeth Naturiol Cymru, eisoes wedi ymateb i'r pryder ynglyn a'r gwalch glas, gan ddatgan nad oes unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw'n nythu yn ol ei arfer.

Ffefryn

Gwennol nad yw'n wennol wir yw y wennol ddu (swift). Hen, yw y gair ynglŷn â'i byw. Hen ogofau oedd ei nythle ers talwm – hen dai, hen strydoedd, hen bentrefi, hen drefi... yna y daw hanner Mai i hanner Awst... Mae'n byw a bod ar yr asgell, uwchlaw y byd, yn hela, cydmaru a theithio... ond i lansio o dan hen lechi, hen dolau, hen dai... Rhwng dau ola' maent yn rasio, yn sgrechian drwy hen strydoedd – un gair a ddisgrifia eu gwib – gwallgo! Ond, ys dywedodd y bardd Ted Hughes... "Pan ei gwelaf bob gwanwyn, gwn fod y Glôb yn troi..." Hen drefn.

Uwch 'Maen y Fodrwy' Mai 19, 2015, 10.30 y bore

Roedd cenllysg brwnt mewn cawodydd,
roedd cyllell yn llaw y gwynt,
roedd siglo ym mrigau'r onnwydd,
- ond dot uwch hafod dy hynt.

Ple buost gyhyd eleni?
Ple gelwaist ti ar dy hynt?
Ple buost, a minnau'n cyfri'
Bob dydd – er y glaw a'r gwynt?

Ti wyddost, fy mod bob blwyddyn
(ti wennol uwchlaw pob gwynt)
ti wyddost, bob stryd a thyddyn
a llechi'r hen gartref gynt?

Mae Mai wedi hanner darfod
heb un wennol ddu - a'u stynt,
nid Mai yw cyn-haf eni hafod
heb dy ddu yn gwanu'r gwynt!'

Ond nawr, mae popeth yn heulwen,
yr wyt ti yn ôl – fel cynt
fel bwa-saeth drwy'r ffurfafen -
ond ... am dri mis byr – ar hynt.

Bydd y Glôb wedi cyfannu
un daith o'i llwybr ar hynt
os cedwir ni eto'i ddathlu...
mae'r ateb – fel chwa o wynt!

Norman Closs

—Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn—

Wedi torri darn o ddodrefn?

Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?

Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor

Dennis & Julie Jones

01286 650255

DODREFN PERKINS

2 Ganolfan Pen-llyn, Caernarfon, Ffôn (01286) 676040
Hefyd yn-16 Stryd Porth Mawr. Caernarfon Ffôn (01286) 673535

Pob math o ddodrefn tŷ
Cegin • Ystafell Fyw • Lloft

— PRISIAU CYSTADLEUOL —

Carpedi • Llenni a Lloriau Pren

Ffon- (01286) 676040



Gwesty Dolbadarn Llanberis

Ffôn-(01286)-870277



Parti adrodd o Adran Bentref yr Urdd Bethel

Wnaethon nhw ddim ennill yng Nghaerffili ond dipyn o gamp oedd mynd trwodd i'r Genedlaethol i gystadlu.

Celfa Chreffft Trefnwyd noson hynod o blesurus yn y Sefydliad Coffa, Llanrug. Diolch i bawb a drefnodd ac am y baned. Llongyfarchiadau i Alys Jones ar ddod yn ail a thrydydd gyda'i phaentiadau o Abaty.

Llongyfarchiadau i bawb o Fethel ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerffili, rhai yn unigolion ac eraill yn aelodau o grwp dawnsio, band a pharti llefaru.

Brawd a chwaer talentog iawn o Fethel, Elen ac Owain Llestyn

Thomas. Enillodd Elen y wobwr gyntaf yn y gystadleuaeth unawd pres blwyddyn 6 ac iau yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, gan ennill Tlws Coffa Shena, ac Owain ddaeth yn gyntaf ar yr unawd pres blwyddyn 7 i 9. Mae'r ddau yn aelodau o Fand Llanrug ac yn cael eu hyfforddi gan Paul Hughes.

Diolch Dymuna Richard Ll Jones, 5 Y Ddol, ddiolch i bawb am eu dymuniadau da cyn ac wedi iddo dderbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Christie's ym Manceinion.

Merched y Wawr

I gloi gweithgareddau'r tymor am eleni bu i 29 o aelodau ymweld â'r Ysgwrn yn Nhrawsfynydd. Cawsom noson hynod o braf gan fwynhau y golygfeydd godidog o'n cwmpas. Cawsom groeso cynnes gan Gerald Williams a'n tywys o gwmpas gan ddwy aelod hynaws o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. I ddilyn, cawsom swper ardderchog yn Nhafarn yr Afr, Glandwyfach. Diolch i Derfel Owens am ei yrru gofalus i'n cludo yno.

Dymunwyd yn dda i Richard Llwyd Jones, gŵr Mary, oedd yn cael llawdriniaeth ym Manceinion ac anfonwyd cofion at Brian Sharpe a John Evans.

Dymunwyd siwrnai dda i Glenys fyddyn cychwyn ar ei thaith i Vancouver i briodas ei mab, Aled, a phob bendith i Aled a Kelley ar eu priodas. Llongyfarchwyd Eryl ar ddod yn nain i Caio, mab bach i Rhodri a Catrin ac hefyd Gethin Wyn, ŵyr Rita

ar ennill Gradd dosbarth cyntaf mewn Cerddoriaeth o Brifysgol Bangor.

Diolchodd Mair Price, y Llywydd i Rita, Mair Williams a Jen ac aelodau'r pwyllgor am eu holl waith dros y flwyddyn.

Aelodau'r pwyllgor oedd wedi rhoi y gwobrau raffl ac fe'u henillwyd gan Mair Williams, Eirlys Williams, Mabel Jones, ac Eirlys Sharpe. Mary Evans ddyfalodd y dyddiad cywir o'r dyddiadur - diolch i bawb a'n cefnogodd. Mair Read, yr is-lywydd ddiolchodd i'r swyddogion.

Bydd y gangen yn ail gychwyn ym mis Medi. Swyddogion fydd Llywydd: Mair Read, Ysgrifennydd: Anita Owen, Trysorydd - Annwylyd Wyn Jones. Ewch i wefanwww.mywbethel.org i weld ein hynt a'n helynt dros y flwyddyn - diolch i Meic a Jen o gwmni Delwedd am drefnu.



Clwb Bro Bethel Cafwyd trip ardderchog i ddiweddu gweithgareddau'r Clwb am eleni gan deithio yn gyntaf i'r Bala a chael tamaid o ginio cyn mynd ymlaen i Lanycil ac ymweld â Chanolfan Byd Mary Jones. Cawsom groeso gan un o'r Swyddogion a bu iddi ddangos fideo yn olrhain hanes y datblygiad oedd wedi cymeryd lle dros gyfnod ac yna cawsom fynd o amgylch Eglwys Beuno Sant, sydd erbyn hyn yn adeilad



cofrestredig sydd wedi ei ailddatblygu yn drawiadol iawn. Ymlaen wedyn i Rhuthun ac yna i Llangernyw a chael pryd o fwyd blasus cyn troi am adref.

Roedd pawb wedi mwynhau y diwrnod yn fawr iawn a diolchodd Geraint Elis i Ann Ellis Williams ac Ivy Wright am ymgymryd â'r holl drefniadau ac i Derfel Owen am ei ofal wrth yrru'r bws. Bydd cyfarfodydd y Clwb yn ailgychwyn ym mis Medi.

Llongyfarchiadau i Elan Haf Jones, 13 Erw Wen, ar ddod yn fuddugol yn un o gystadlaethau Celf a Chrefft Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerfili fis Mai. Enillodd Elan y categori Gwaith Creadigol 2D ar gyfer unigolion Bl. 7, 8 a 9 gyda'i phortread ar y thema Tyfu a Ffynnu. Braf oedd gweld ei gwaith yn yr Arddangosfa ar faes y Brifwyl.

Fodd bynnag, nid Elan yw'r gyntaf o drigolion Caeathro i ennill mewn Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerfili. Gyda ymddiheuriadau am longyfarch mor hwyr, mae'n braf cael ymfalchio ym muddugoliaeth Robert (Bobi) Owen, 1Erw Wen, rhyw 80 mlynedd yn ôl pan, yn blentyn, enillodd y gystadleuaeth llefaru yn nhridegau y ganrif ddiwethaf, eto yng Nghaerfili.

Manteisiwn ar y cyfle hefyd i longyfarch Bobi yn gynnes iawn ar ben-blwydd arbennig ddiwedd Gorffennaf pan fydd yn 90 oed.

Clwb Merched Ar Fehefin 4ydd yng Nghanolfan y Capel cynhaliwyd cyfarfod olaf y tymor dan gadeiryddiaeth Marian Hughes. Y wraig wadd oedd Siân Gruffydd, Swyddog Datblygu Yr Ysgwrn, cartref Hedd Wyn yn Nhrawsfynydd, a rhoddodd ddarlun diddorol iawn o'r datblygiadau mawr sydd ar droed argyfer dathliadau canmlwyddiant ennill y 'Gadair Ddu' yn 2017. Fe gofiwch i Elis Humphrey Evans, dan y ffug enw Fleur de Lis, ennill y gadair, wedi ei farwolaeth, yn Eisteddfod Lerpwl yn 1917. Eugene van Fleteran grefftodd y gadair, sydd yn arbennig o hardd, ac er mwyn arbed traul

ar y gadair mae model 3D wedi ei wneud yn ddiweddar o bren golau. Y bwriad yw defnyddio y model wrth ymweld â ysgolion ac arddangosfeydd fel y gall pobl deimlo y gwaith coed celfydd sydd yn gopi cywir o'r gwreiddiol.

Ei aberth nid â heibio- ei wyneb annwyl nid â'n ango'.

Er i'r Almaen ystaenio

Ei dwrn dur yn ei waed o.

Diolchwyd yn gynnes iawn i Siân am noson ddifyr iawn a chawn glywed mwy am y dathlu canmlwydd yn 2017.

Diolchodd Marian i swyddogion 2014-2015, sef Rhian Roberts, Eurwen Hughes a Catrin Jones am eu gwaith trwy'r flwyddyn yn trefnu rhaglen a gofalu am y coffrau. Bydd y clwb yn ail gychwyn ar y trydydd nos lau o Fedi gyda swyddogion newydd fel a ganlyn: Carys a Mair Davies (ysg), Nia Parry Jones (trys), a bydd Marian yn parhau fel Cadeirydd am gyfnod. Bydd croeso cynnes i unrhyw ferched o'r ardal i berthyn a mwynhau hwyl a chwmni.

Noson Wobrwyio Clwb Jiwdio Segontium Trefnwyd seremoni wobrwyio clwb Jiwdio Segontium ar yr 1leg o Fai. Unwaith eto eleni roedd yn noson yn llwyddiant ysgubol. Yn ystod y seremoni roedd holl aelodau'r clwb (29) yn cael eu cydnabod am eu talent. Cyflwynodd Clive James, Cadeirydd y Clwb, yr holl wobrau ar y noson gyda ffotograffydd lleol, Richard Jones, yn tynnu lluniau o'r noson.

Eleni bydd y clwb yn dathlu 10 mlynedd ers iddynt sefydlu yn cynnig cyfle i blant a phobl ifanc yr ardal ddysgu amddiffyn

eu hunain. Mae'r clwb bychan yma wedi gweld rhwng 250-300 o blant yn dod trwy'r drysau dros y blyneddau. I ddathlu 10 mlynedd o wasanaeth mae'r clwb wedi cael dylunio logo newydd ac wedi creu tudalen facebook i annog mwy o blant i roi cyfle arni.

Mae'r Clwb Jiwdio Segontium yn croesawu aelodau newydd trwy'r flwyddyn Felly os ydych chi rhwng 6 a 16 oed a hoffech gael rhagor o wybodaeth, dilynwch ni ar Facebook @ClwbJiwdioSegontium neu cysylltwch gyda ysgrifennydd y clwb Hannah Hughes drwy e-bost hannahjudo@hotmail.com neu ffonio 07816316236

Gwasanaethau y Capel

Dydd Sul Gorff Sed am 2 o'r gloch. Y Parch .Marcus Robinson ac yn dilyn am 3o'r gloch cynhelir Cyfarfod Swyddogion.

Dydd Sul Gorff 19eg am 2 o'r gloch. Mr Bob M. Morris.

Yn ystod mis Awst bydd cyfle i fynychu oedfaon mewn addoldai eraill, yn lleol, yn yr Eisteddfod neu ar eich gwyliau. Cysyllter â Clive James (674806) os hoffech logi Canolfan y Capel yn ystod yr haf.

Tynfa misol Caeathro Dyma'r canlyniadau am fis Mai a mis Mehefin.

Mai. 1Af (87) £40: Sheila Liptrot, Lynnlea; 2il (106) £25: Mirain a Tim, Brynhyfryd; 3ydd (35) £15: Norman Hughes, Llyn Gele; 4ydd (82) £5: Sion ac Anna, Y Wern.

Mehefin. 1Af (33) £40: Robin Evans, Bryn Eden; 2il (13) £25: P. Hughes, Pennant; 3ydd. (104) £15: Alwyn a Nia Jones,

Y Dderwen; 4ydd (19) £5: Karen Element, Glan Gwna.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch am bob cefnogaeth.

Profedigaeth Tristywcofnodi marwolaeth Mrs Nansi Jones, Tremallt, mor fuan wedi iddi golli ei gŵr. Cydymdeimlwn â'i brawd, Mr Owie H. Jones, a gyda Mrs Glenda Jamieson, Llanrug, ei merch yn eu colled ac yn eu hiraeth.

Priodas Cymru ac Awstralia Bu nifer o bobl yn dyfalu beth oedd arwyddocâd baner Cymru a baner Awstralia yn chwifio ar byst giât Garreg Lwyd yn ystod mis Mai. Dathliad priodas Ffion, merch Mr John Jones ,Garreg Lwyd gyda Graeme Petrie oedd yn digwydd yn dilyn eu priodas yn Sydney, Awstralia. Mae Ffion yn rheolwraig cwmni Yoga yn Sydney a chyfarfu â Graeme, sydd o Seland Newydd, ar wyliau yn Affrica. Albanwr, ffrind i Ffion o'r West End yn Llundain, oedd meistr y seremoni a bu dathlu mawr yn y pebyll yn Garreg Lwyd, a hynny ar Fai 30ain, pen-blwydd ei thad, John.

Dymunwn bob hapusrwydd i'r pâr ifanc yn eu bywyd yn Awstralia.

Gwellhad Deallwn bod Mr Selwyn Hughes, 7 Erw Wen, yn Ysbyty Eryri. Dymunwn wellhad buan iddo.


Profedigaeth Ar Fehefin 18ed, wedi dioddef yn ddewr, bu farw Mr Bryn Griffiths, Delfryn, yn ei gartref gyda'i deulu. Anfonwn gydymdeimlad dwys at Dilys, ei wraig, fu mor ofalus ohono, ac at y plant Yvonne, Phylip a Sharon ac hefyd at ei frawd Tony a'r teulu oll yn eu hiraeth am Bryn.

"RYDYM ANGEN MWY O FYTHYNNOD HUNANARLWYO"



DIONI
<http://dioni.co.uk>
 tel: 01341 247 200
 ebost: gwion@dioni.co.uk

grid76
 dylunio graffeg/graphic design
 darlunio/illustration
 animeiddio/animation
 graffeg arddangos/display graphics



- Cardiau Busnes
- Arwyddion
- Graffeg ar Gerbydau
- Gwefanau a mwy...

Llanrug **07766956673** gyndaf@grid76.co.uk
 gwasanaeth dwyieithog llawn/fully bilingual service



PRIODAS Llongyfarchiadau i Amy Lambert, Glandŵr ar ei phriodas â Gareth Roberts o Lanrug ddydd Sadwrn, Mehefin 14eg, yng Nghapel y Rhos. Ein dymuniadau gorau iddynt i'r dyfodol.

DOSBARTHU'RECO Mae ein diolch i Hugh a Dilys Evans, Min y Don am eu gwaith yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn dosbarthu'r Eco i drigolion ardal Penllyn. A chwithau yn awr am ymddeol, diolchwn yn fawr am eich ymroddiad a'ch ffyddlondeb. Ar yr un pryd rydym yn ffodus iawn o gael Dwynwen Williams, Tros yr Afon, i ymgymryd â'r gwaith o hyn ymlaen. Diolch yn fawr iddi hithau.

Cafwyd hefyd noson ddifyr yng nghwmni Vicky Hinde yn gwneud sebon.

Yng nghyfarfod Mehefin dan

lywyddiaeth yr Is-lywydd, Elinor Williams, croesawyd Gwenda Roberts, Nant Peris, a roddodd arddangosfa o'i gwaith Clytwaith.

Bydd cyfarfod Gorffennaf ar ffurf Trip Dirgel yn cychwyn o'r Caban.

P E N - B L W Y D D A R B E N N I G Llongyfarchiadau i Bertie Robertts, Llwyncoed Bach, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 80 oed. Anfonwn ein cofion cynnes ato ac yntau ar hyn o bryd yng Nghartref Nyrsio Penisarwaen.



SEFYDLIAD Y MERCHED Yn ystod mis Ebrill, roedd tîm Brynrefail yn cymryd rhan yn y gêm dartiau derfynol ym Mhwllheli ond yn anffodus ni ddaeth y cwpan adref. Hefyd bu llawer o'n haelodau yn Llandudno i ginio dathlu Canmlwyddiant Sefydliad y Merched a chael ein difyrru gan Gôr Alaw yn dilyn y wledd.

Dros benwythnos 16 ac 17 o Fai roedd Arddangosfa Canmlwyddiant Sefydliad y Merched yng Ngwesty'r Bulkeley, Biwmares. Cafodd pawb wledd i'r llygaid wrth edrych ar dair ar ddeg o faneri – un o bob Ffederasiwn yng Nghymru yn dehongli llinell amser ers cychwyn y Sefydliad yn Llanfairpwll, Sir Fôn, yn 1915. Roedd hefyd fyrddau yn arddangos celfi o wahanol gyfnodau. Dros y ddau ddiwrnod ymwelodd dros fil o aelodau y Ffederalysynnau yng Nghymru.

Cafwyd trip hefyd i ben yr Wyddfa i ddathlu Canmlwyddiant Sefydliad y Merched. Yn anffodus niwl a glaw gawsom ar y diwrnod ond nid oedd wedi amharu ar y dathliad ar Gopa'r Wyddfa. Diweddwyd y diwrnod gyda bwffe rhagorol yn y Ganolfan yn Llanberis. Mae ein diolch i Pat Jones fel ein Llywydd a Chadeirydd y Ffederasiwn am ei gwaith caled yn trefnu'r cyfan. Ymunodd dwy o aelodau o'r gangen leol â Ffederasiwn Gwynedd Caernarfon i Arddwest Palas Buckingham a chael diwrnod i'w gofio. Anrhydedd i Pat Jones fel Cadeirydd y Ffederasiwn oedd cael gwahoddiad i'r Babell Frenhinol a chael cyfle i gyfarfod Y Dywysoges Alexandra, Iarlles Wessex a Duges Caerloyw ac i ddilyn y Cyfarfod Blynnyddol yn Neuadd Albert. Derbyniodd y Frenhines Fatwn y Canmlwyddiant oedd wedi cychwyn ar ei daith yn Llanfairpwll, Ynys Môn fis Ionawr 2014 ac wedi teithio o amgylch Prydain Fawr.

Yn ystod mis Mai, bu cyrsiau ymlaen ym Mhlas Tanybwllch ar hanes hen adeiladau, trosglwyddo lluniau ar ddefnydd, gwneud clustogau a chwrs cyfrifiadureg.

Diwrnod llwyddiannus yn ystod y mis oedd blasu chwaraeon yn y Ganolfan yn Llanberis ar Botcha a Kurling – diwrnod â digon o hwyl oedd hwn.

RHOSTIO MOCHYN
Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

AR GYFER POB ACHLYSUR **DEWCS MAE O'N FLASUS**

PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!
Cysylltwch a
John Brynafon LLANRUG
www.ydyncig.co.uk

675190 • 673188
Symudol- 07798 718188

SAMARIAID

Mae

Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

YSWIRIANT FUW

Hoffech chi hybu
BWYD LLEOL
BUSNESAU CEFN GWLAD
ECONOMI WLEDIG

Trwy gefnogi Yswiriant FUW?
Yswiriant car, tŷ neu unrhyw fusnes

Dafydd P. Jones 01492 642683
Dwyrain Sir Gaernarfon
Buddsoddi yn eich cymuned

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol.
Yng nghyd-destyn cyfrngu yswiriant o dan Rhif Cofrestru 308935

Parhad BRYNREFAIL

YREGLWYS BRESBYTERAIDD

Y Gymdeithas Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas, nos Fawrth, Mai 12fed. Cadeirydd y noson oedd Gwyn Hefin Jones, Rhandir ac ef a arweiniodd yn y defosiwn a chroesawu y gŵr gwadd, sef Ralph Jones, Llanberis. Cawsom adroddiad difyr ganddo o'i waith ymchwil i oddefgarwch y werin bobl dros yn canrifoedd i ddegymu o'u hadnoddau prin ond a arweiniodd, maes o law, i'r frwydr dros eu hawliau yn Rhyfel y Degwm yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Diolchwyd yn gynnes iddo am ei sgwrs gan y cadeirydd a gwerthfawrogiad pellach gan nifer o'r aelodau. Yng nghyfarfod nos Fawrth, Mehefin 23ain cadeirydd y noson oedd Dafydd Ellis ac yn dilyn defosiwn dan ei arweiniad croesawyd ganddo y siaradwr gwadd, Hywel Roberts o Gaernarfon. Testun ei sgwrs oedd 'Yncl Tom yn y Rhyfel Mawr'. Diolchwyd yn gynnes iddo am noson ddiddorol gan y cadeirydd.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau, Gorffennaf 30ain, pan gawn hanes ei daith i Cwba gan Gwyn Hefin Jones. Cadeirydd y noson fydd Robert John Williams.

Casgliadau Gwnaed Casgliadau arbennig yn ystod yr wythnosau diwethaf tuag at waith Cenhadol Chwiorydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Apêl Daeargryn Nepal.

Cyfarfod Cyfeisteddfod Chwiorydd Arfon Nos Fawrth, Mai 19eg, ymunodd rhai o'r chwiorydd ag aelodau eglwysi Henaduriaeth Arfon mewn cyfarfod arbennig yng Nghapel Berea Newydd, Bangor. Y siaradwraig wadd oedd Sarah Morris, Caerdydd, trefnydd gwaith Chwiorydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru a chafwyd cyflwyniad arbennig a hwyliog ganddi i Raglen Dorcas a'r gwaith sydd eisoes yn mynd ymlaen mewn Henaduriaethau dros Gymru.

NANT PERIS

Kate Pritchard (872331)
econantperis@hotmail.com

Dymuna aelodau Pwyllgor Treialon Cŵn Defaid Nant Peris a'r cylch ddiolch o galon i bobol a busnesau lleol am eu cefnogaeth y llynedd. O ganlyniad i'w haelioni llwyddwyd i gyfrannu £600 at elusennau lleol eleni: £300 i Tŷ Gobaith trwy law Ruth Mowll a Bryn Griffiths a £300 i Ofal ac Ymchwil Cancr trwy law Eryl Roberts, Nant Peris. Cynhelir treialon eleni ar Ddydd Sadwrn y 15fed o Awst. Croeso cynnes i bawb!



Rhian Pritchard a David Griffith o bwyllgor Treialon Cŵn Defaid Nant Peris a'r Cylch yn cyflwyno sic o £300 i Bryn Griffiths a Ruth Mowll i Tŷ Gobaith a £300 i Eryl Roberts a chronfa Fantastic Friends sy'n codi arian ar gyfer gofal ac ymchwil cancr.

Oedfa'r Aelodau Nos Sul Mehefin 21ain, roedd yr oedfa wedi ei threfnu gan Gwyn Hefin Jones. Cymerwyd rhan yn y rhannau defosiynol gan Ifanwy Jones, Iris Rowlands, Lowri Prys Roberts a Dafydd Ellis. Roedd y gwasanaeth wedi ei seilio ar ymweliad Gwyn Hefin ac Ifanwy ag Israel ac yn arbennig â dinas Jeriwsalem. Cafwyd cyfle i gyd-rannu y profiadau gawsant drwy ddarluniau 'power point' o'r mannau cysegredig yn y ddinas ac yn neilltuol felly Ffordd y Groes.

Oedfaon Gorffennaf

Sam 5.30: Parch Marcus Robinson (Gweinidog)
12 am 2.00: Parch Olwen Williams, Tudweiliog
19 am 5.30: Dr Huw Tegid Roberts, Bangor
26 am 5.30: Parch Gwenda Richards, Caernarfon
Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd

Cerdded i'r
COPA SUMMIT
walk

Gafael Llaw
Yn codi arian i gefnogi plant efo cancr
Raising money for children with cancer

*Ydych chi wedi bod eisiau cerdded i gopa'r Wyddfa?
Beth am ymuno â ni a chasglu arian at achos da.
Always wanted to walk to the summit of Snowdon?
Why not join us and collect money for a great cause.*

Tystysgrif Aur i unrhyw un sy'n casglu nawdd o £100 neu fwy a thystysgrif Arian i nawdd dros £50
Gold certificate for all sponsorship of a £100 or more and a Silver Certificate for all sponsorship over £50

9am, Gorffennaf 25 July
Ymunwch Gyda Chriw Gafael Llaw
Cychwyn a gorffen yn Cae Ddol Llanberis - The walk starts and finishes at Padarn Park, Llanberis.

Crys-T ar gyfer pawb sy'n casglu £10 neu fwy
T-shirt for everyone who collects £10 or more
Manylion bellach - Further details
www.gafael-llaw.co.uk

Yr holl elw yn mynd at elusen
All Proceeds to charity
ward dewi
alder hey
cllic sargent

GERAINT OWEN CARPEDI

CARPEDI • VINYLs • TEILS
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau



TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU AMCANGYFRIF AM DDIM

Sion Roberts ▶ **07759415753**
3 CARADOG PLACE • DEINIOLEN • LL55 3H5



CHWILOTA

chwilota.wordpress.com

Teulu Hugh Lewis a'r Padarn Glee Party.

Yn rhifyn Tachwedd y llynedd, adroddais hanes llyfryn bychan a gyhoeddwyd yn sgil cystadleuaeth yng Nghylchwil Lenyddol Llanberis, gan holi mwy am y teulu uchod a'r disgynyddion. Daeth rhyw fymryn mwy o wybodaeth i'r amlwg erbyn hyn, a hynny'n bennaf oherwydd fod un o ddisgynyddion Ednyfed Lewis, a fudodd i'r America yn 1914, yn chwilio am hanes ei theulu.

Soniais eisoes am William Padarn Lewis (sef tad Ednyfed), a dderbyniodd addysg gerddorol yn y Royal Academy, ac a fu farw yn Lerpwl. Ail fab i Hugh Lewis oedd John (Hugh) Lewis. Arhosodd yn Llanberis, a bu'n byw yn Bethesda Street gyda'i briod, Gwen a'i fab Emyr. Erbyn hyn gwyddom ei fod yn arweinydd y gan yng nghapel Gorffwysfa, ac yn cynnal cyngherddau yn y pentref gan ddenu cantorion enwog yno yn sgil cysylltiadau ei frawd. Roedd hefyd yn sefydlydd ac arweinydd y Padarn Glee Party, ond ychydig iawn o wybodaeth sydd am y parti canu hwn. Ceir rhai cyfeiriadau yn y wasg amdanynt yn cynnal cyngherddau yn Llanberis tua diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond dim mwy na hynny.

Oes gan unrhyw un o ddarllenwyr y golofn wybodaeth am y Padarn Glee Party?

Erbyn hyn, gwyddom fod brawd arall, Hugh Lewis hefyd yn gerddorol, ond na fu'n byw yn Llanberis yn hir iawn. Cafodd swydd clerc cyfreithiwr ym Mangor cyn symud i Nuneaton a dychwelyd i Gaernarfon yn Glerc Pwyllgor Yswiriant Sir Gaernarfon. Daliodd y swydd honno hyd ei farwolaeth yn 1945 yn 69 oed. Gweithredai hefyd fel Ysgrifennydd Panel Sir Gaernarfon, ysgrifennydd mygedol Pwyllgor Meddygol Rhyfel Lleol Sir Gaernarfon ac ysgrifennydd mygedol Pwyllgor Nyrsio Sir Gaernarfon. Yr oedd hefyd yn aelod o Bwyllgor Gwaith Cymdeithas Pwyllgorau Yswiriant Cymreig ac aelod o Gyngor Cenedlaethol Whitley. Cerddoriaeth oedd ei brif ddiddordeb, ac yr oedd yn unawdydd poblogaidd ac aelod o Gymdeithas Gorawl Caernarfon.

Dyna o leiaf dri o'r teulu felly a doniau cerddorol, ond mae angen mwy o wybodaeth am eu disgynyddion. Fedrwn chi helpu?

Gwrhydri Grace Jones.

Mae'r wybodaeth am y wraig hon o Ddeiniolen yn parhau i ddod i'r amlwg. Yn ystod y mis cefais alwad ffon gan Rhian Hughes, wyres iddi sy'n byw yn Nhregarth. Gallai gadarnhau mai Griffith John Jones oedd gwr Grace Jones, ac iddynt fod yn byw yn y Wellington yn Neiniolen. Roedd ganddynt wyth o blant. Yr hyn sy'n parhau'n ddirgelwch yw pam fod tystysgrifau Grace Jones wedi eu rhoi ar gadw yn hen lyfrgell Deiniolen yn hytrach na'u bod wedi aros ym meddiant y teulu.

Cwpan Nant Eos.

Mae'r cwpan, yr honnwyd iddo gael ei ddefnyddio yn y Swper Olaf, wedi ei ddwyn o blasdy Nant Eos yng Ngheredigion, ac mae'n parhau ar goll. Beth felly yw'r cysylltiad efo bro'r "Eco"? Ysgrifennwyd drama fer am y cwpan yn ystod y 1930'au gan Reithor Eglwys y Santes Fair, Ystrad Fflur gyda'r teitl 'Cwpan Ystrad Fflur'. Yr awdur oedd y Parch Hugh Lunt, (a oedd yn galw'i hun yn Gwynodl ar brydiau) a fu hefyd yn gwasanaethu yn Llanberis. Hyd y gwyddys, mae pob copi o'r ddrama wedi mynd ar ddifancoll – os nad oes copi ym mherchnogaeth rhywun o Lanberis! Roedd merch y Parch Hugh Lunt yn byw yn Llanberis, a bu farw yn 1990. Os oes unrhyw un a gwybodaeth am y ddrama, yna rhwch wybod!

Hirhoedledd Llanberis.

Cysylltodd Mary Jones o Lanuwchllyn gan egluro ei bod hithau'n un o ddisgynyddion teulu Coed Mawr a Llwyn Bedw. Mae ei chwaer yn parhau i fyw yn y cartref, Coed Mawr, felly dyna ddilyniant teuluol yno ers priodas Grace Williams a Foulk Morris yn 1759. Priodwyd Janet Foulk a Henry/Harri Maurice yn 1785, a magwyd ganddynt saith o blant yn Penllyn, Ond ar farwolaeth ei mam yn 1801 symudodd Janet a Henry i Goed Mawr i ofalu am ei thad. Taid Henry Maurice oedd Dafydd Jones, Garreg Wen, sef teulu Dewi Arfon a Gutyn Arfon. Roedd tad Henry hefyd yn wr gweddwr, ac felly roedd Janet a'i gwr yn gofalu am ddau dad yn Coed Mawr.

Storm 1890 a dal Stwrsiwn.

Daeth yr ymateb canlynol gan Duncan Brown i hanes y storm anhygoel honno a effeithiodd ar gymaint o gymunedau yng ngogledd Cymru.

Diddorol oedd hanes tarddiad yr enw Llyn Tomos Lewis, a'r cysylltiad gyda storm fawr 7 Tach 1890. Roedd hon yn storm ddychrynlyd yn wir, ac yn ddechrau ar aeaf anodd iawn i bobl yr ardal a thu hwnt. Cofnodwyd un llong-ddrylliad dirdynol arall oddiar y Traeth Coch, Mon, yn y Shipwreck Index of the British Isles (R&B Larn). Yn ol yr adroddiad aeth slwp o'r enw y Linnet i drafferthion ganol y nos. Gallwn ond dychmygu yr argyfwng yn datblygu i'r trueiniaid ar ei bwrdd. Ceiswyd achub bachgen ifanc trwy ei glymu i'r rigin - ei unig obaith o oroesi, ond hynny mae'n debyg yn ofer. Ar y trai am 6 o'r gloch fore trannoeth roedd y llong fel ynys ynghanol y traeth a phob gwaedd am gymorth bellach wedi distewi. Serch hynny, achubwyd y capten a'r is-gapten ond buont hwythau farw maes o law o oerfel. Dilynwyd y digwyddiadau dychrynlyd hyn gan aeaf gyda'r caletaf a gafwyd o fewn canrif, gaeaf a anfarwolwyd mewn cyfrol arbennig dan y teitl The Great Blizzard of 1891 (David & Charles 1991).

Ar ol y storm cafodd y mor bythefnos i ymdawelu a'r cychod pysgota yn mentro allan unwaith eto. Ac ym Mae Caernarfon fe gafwyd rhywbeth tra annisgwyl gan un ohonynt, hynny yn enwedig o ystyried y tywydd ac amser y flwyddyn. Yn ol y North Wales Express 28 Tachwedd 1890 cafodd pysgodyn egsotig a phrin iawn ei ddal. Stwrsiwn ydoedd, y pysgodyn hwnnw sy'n rhoi i ni yr enwog cafiâr. Roedd hwn yn bysgodyn digon prin i dynnu sylw'r papurau newyddion hyd yn oed y pryd hynny - mae'n llawer prinach heddiw. Pysgodyn cyntefig ac amheuthun iawn yw'r stwrsiwn, ac fel "Pysgodyn Brenhinol", yn ol y son dylid ceiso caniatad y brenin neu'r frenhines i'w gadw. O ddiddordeb arbennig i ddarllenwyr yr Eco yw'r ffaith i'r pysgodyn hwn gael ei arddangos yn siop un Uriah Heard, Stryd Fawr, Caernarfon. Mae cwmni Heard-Hughes yn gwerthu pysgod yng nghyffiniau Caernarfon o hyd. Gwell peidio a gofyn am wn i a gafodd yr hen Uriah ganiatad y brenin i elwa o'i bysgodyn prin?!

Gyda diolch i bawb am gysylltu. Gwyliau haeddiannol i chwi dros fisoedd yr haf (os cawn un!). Rwy'n fwriadol wedi cwtdogi'r golofn y mis hwn er mwyn cael cynnwys erthygl ddiddorol a lluniau arbennig am hanes y busnes cynhyrchu lemond yn Llanberis. Gyda llawer o ddiolch i Eifion Roberts am ei waith ymchwil.

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r "Eco", neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515)

e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com

HANES BUSNESAU LEMONED LLANBERIS



Y POTELI

Ychydig iawn o drigolion yr ardal sy’n ymwybodol o’r busnesau cynhyrchu diodydd ysgafn, megis lemond a ginger beer, oedd yn bodoli ym mhentref Llanberis am yn agos i hanner can mlynedd.

Mae fy niolch yn fawr i deuluoedd y rhai a fu’n rhedeg y busnesau ac i arbenigwr ym maes busnesau diodydd yr ardal, am fod mor barod gyda’u gwybodaeth.

Fe gychwynodd fy niddordeb i yn y busnesau lemond rai blynyddoedd yn ôl pan ddarganfyddodd adeiladwyr oedd yn atgyweirio selar o dan ein siop, Siop Eryri/Siop Evan Wilson/Siop Benson, nifer o hen boteli gwydr, gwag, hefo marblen yn eu gwddf a’r ysgrif Snowdon Mineral Water Works Llanberis(SMWWLl) wedi ei argraffu arnynt.

Tua pum mlynedd yn ôl fe brynais, ar y we, labelau poteli gwahanol ddiodydd ysgafn gyda’r enw M Hughes Snowdon Mineral Water Works Llanberis wedi ei brintio arnynt. Gan fod y labelau mewn cyflwr mor arbennig o dda, rhaid oedd imi gysylltu â’r gwerthwr, i gadarnhau mai labelau gwreiddiol oeddynt. Ateb y gwerthwr oedd, iddo brynu stoc printwyr o Efrog ac ym mysgr yr eiddo roedd fy lebalau i. Y tebygrwydd yw fod rhyw ym musnes SMWWLl yn ail-archebu labelau oddi wrth y printwyr drwy gyfeirio at y rhai sydd yn fy meddiant i, nawr! Arferai busnesau diodydd gynnwys enw’r busnes yn/ar eu poteli/potiau, rhag i eraill eu defnyddio, pan oeddynt yn cael eu cynyrchu, a byddai labelau yn cael eu rhoi, yn aml, ar gefn y botel/pot gan gynyrchwyr y diodydd. Tra’n sgwrsio am fy mhoteli lemond hefo’r diweddar Nan Nan, Annie Wilson Evans, Manod Ffordd Capel Coch, cefais wybod bod ei theulu hi yn rhedeg busnes diodydd ysgafn, wedi ei leoli yng nghefn Bemont House(Siop Chips)/Greenbank/Caxton House, a’i bod hi wedi bod yn gweithio yno. Dangosodd lyfryn bychan, yn nodi archebion i wahanol bentrefi cyfagos, i mi. Dywedodd mai ei thad, Evan Lloyd Hughes, chwarelwr yn Ninorwig, oedd perchenog y busnes, ond bod ei frawd, Robert(Bob) Lloyd, yn rhedeg y busnes lemond.

Yn ddiweddar, fe soniodd Dafydd Whiteside am y busnes lemond ac fe ysbrydolodd hyn fi i geisio darganfod mwy am y busnes lemond yn Llanberis.

‘Roedd o leiaf bedwar perchenog/cwmni busnesau cynyrchu diodydd ysgafn yn Llanberis.

1902 Yn ôl “Trade Directory 1903”, sy’n rhestru busnesau mewn gwahanol bentrefi/trefi, fe nodir fod M Hughes yn rhedeg y SMWWLl. Dyma’r cyfeiriad cyntaf at unrhyw un yn cynyrchu diodydd ysgafn yn Llanberis. Yn sensws 1901 mae yna Margaret Hughes yn byw yn Dolbadarn Taproom. A’i hon oedd perchenog y SMWWLl a’i henw ar fy lebalau i? Os felly, pam nad oes sôn am hyn yn y sensws!

1908 Tybiwn fod SMWWLl wedi ei gymeryd trosodd gan R M Jones, oedd yn rhedeg busnes cyffelyb ym Mhorthmadog. Mae’r busnes yn cael ei enwi fel R M JONES SMWWLl ar botel bridd sydd, yn ôl fy arbenigwr, yn dyddio o 1908.

1910 Yn “Trade Directory 1910” cyfeirir at R M Jones fel perchenog y SMWWLl ac hefyd yn berchenog y Concert Hall, hen bictiws Llanberis.

1911 Yn sensws 1911 mae Arthur Blinston, “Mineral Water Maker” yn byw, gyda’i wraig, yn 10 Rallt Goch.. A’i gweithio i R M Jones ydoedd, neu oedd yna fusnes arall yn y pentref ar y pryd?

1917-1942 ‘Roedd y SMWWLl yn cael ei redeg gan Jones & Son—mwyaf tebyg R M Jones a’i fab. Bu farw R M Jones yn 1945.

1932 Busnes hollol newydd yn ymddangos, gyda Edwin Parry, fferylllydd yn byw yn Compton House, yn berchenog. ‘Roedd Edwin yn frawd i Mrs Jones, Gwyddfyd, Stryd Fawr, ac yn ewythr i Mrs Robert Owen, Pengwaith. Does dim gwybodaeth am ba hir y parhaodd y busnes yma na’i enw, ond bu farw Edwin Parry yn 1941.

1935 Enw newydd, E Ll Hughes, yn ymddangos, fel cynyrchydd diodydd ysgafn, mewn “Trade Directory”.

1936 Busnes E LL Hughes yn eiddo Y Brodyr Hughes, sef Evan a Bob Lloyd Hughes.

Y posiblirwydd yw fod E Ll Hughes wedi cymeryd drosodd fusnes Edwin Parry a’i redeg o safle yng nghefn Siop Chips. Os yw hyn yn wir, ble roedd safle y SMWWLl? Mae gennyf gof o ryw yn son wrthyf am fusnes lemond yng nghefn y Pictiws... ac R M Jones oedd perchenog y Concert Hall/Pictiws ar un amser.

‘Roedd y Brodyr Hughes yn enedigol o Lanberis:

Yn sensws 1901 mae’r teulu Hughes yn byw yn Glasfryn House, drws nesaf i siop Pen Bryn, ac yn cynnwys:

Evan R Hughes(44)- chwarelwr- ganed Bethesda
Alice Hughes(48) - ganed Beddgelert
Robert Lloyd Hughes(19)- chwarelwr- ganed Llanberis
Evan Lloyd Hughes(17)- chwarelwr- ganed Llanberis
John Lloyd Hughes(13) - ganed Llanberis
Jane Lloyd Hughes(11) - ganed Llanberis

Erbyn sensws 1911, gyda’r mwyafrif o’r teulu yn dal yn Glasfryn House fe restrir:

Alice Hughes(64)- rhedeg siop
Robert Lloyd Hughes(29)- chwarelwr
Johne Lloyd Hughes(23)- fitter
Jennie Lloyd Hughes(21)- domestig

.....Mae hen lun gennyf o siop yn Glasfryn.. a’i llun o siop Alice Hughes yw?

Yn sensws 1911, mae Evan Lloyd(27) a’i wraig Alice yn byw yn Glan Llyn, y bwthyn ochr isaf i westy Gallt Y Glyn. Fe symudodd Evan Lloyd a’i deulu i Glan Padarn, Siop Gig Allsup, yn ddiweddarach.

Rhaid imi gyfeirio at fusnes cynyrchu lemond arall, mwy diweddar, yn Llanberis, er nad oedd y cynyrch yn cael ei werthu mewn poteli na chan neb ond y cynyrchwyr.Cyfeirio ydwyr at ” lemond Tŷ Hanner Ffordd”.

‘Roedd George a Mrs Williams, rhieni Vember Cheesman, yn cynyrchu lemond cartref i’w werthu yn eu busnes yn Nhŷ Hanner Ffordd.

Wedi i’r busnes gael ei drosglwyddo i Mr a Mrs Huw Hughes(Huw Glo), Gadlys Cottage, cariyd ymlaen i gynyrchu’r lemond, gyda’r hen rysiat, a’i gario ar y dren gyntaf i Tŷ Hanner Ffordd, ac ychwanegu dŵr o ffynnon gyfagos ato, i greu’r diod unigryw. Deallaf fod y perchnogion presennol yn dal i wneud lemond i’w werthu yn Tŷ Hanner Ffordd.

Mae disgynyddion Evan R ac Alice Hughes wedi, ac yn dal i, chwarae rhan bwysig ym myd masnach Llanberis. Ymysg y rhai dwi’n ymwybodol ohonynt mae:

Evan a Robert Lloyd Hughes... Snowdon Mineral Water Works
Evan Wilson Hughes, Siop Eryri.....mab Evan Lloyd Hughes
Elwyn Wilson Jones, Hogia’r Wyddfa..wŷr i Evan Lloyd Hughes
Ian Jones, Caffi’r Pantri, Llanberis... gor-wŷr i Evan Lloyd Hughes
Jennie Lloyd Hughes, gwesty Prince of Wales...chwaer Evan Lloyd Hughes

Alice Thomas, Gwesty’r Gwynedd... merch Jennie Lloyd Hughes
Brenda Lloyd Evans, Gwesty’r Gwynedd... merch Alice Thomas
John Lloyd Thomas, Art & Craft(hen station) ...mab Alice Thomas
Dafydd Evans, Adeiladwr..mab Brenda Lloyd Evans
Geraint Evans, Gwesty Padarn Lake... mab Brenda Lloyd Evans
Jennifer Lennon, Gwesty Glyn Afon... merch Jennie Lloyd Hughes

Os y methais rhywun, neu fod yr enw ddim yn hollol gywir, nid yw drwy friad!



LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Ffôn: 870740



Ysgol Dolbadarn

Urdd

Plant Ysgol Dolbadarn a fu'n cystadlu ar y Gân Actol yn yr Eisteddfod yng Nghaerffili - y thema yw 'Caer'.(llun 2-11)

Cynhaliwyd cyngerdd mawreddog yn y Ganolfan yn ddiweddar er mwyn dathlu llwyddiant plant yr ysgol. Bu unigolion yn canu a llefaru yn ogystal â pherfformiadau gan y parti llefaru, parti unsain a deulais, y côr ac eitemau gan y Cyfnod Sylfaen ac Adran Iau. Dathlwyd hefyd cwblhau y gwaith graffiti ar waliau'r Ganolfan yn olrhain hanes yr ardal leol. Cafodd ddisgyblion yr ysgol gynorthwyo wrth beintio geiriau T. Rowland Hughes ar y wal. Bu rhai ohonynt yn siarad am eu gwaith ar y rhaglen 'Heno' ar S4C.

Diolch i Rhiannon Williams am ysgrifennu Cân Actol wych

Dringo

Bu i dair merch Harmony, Ruby a Melody ddringo uchder o 300 troedfedd er mwyn casglu arian ar gyfer SportRelief yng nghanolfan ddringo Beacon yn ddiweddar. Yr oedd y gamp yn efelychu taith y dringwyr a ddringodd wal adnabyddus El Capitan yn yr Amerig yn y 70au. Da iawn chi genethod am eich gwaith caled a'ch caredigrwydd- llwyddwyd i gasglu £1570 i'r achos.

Cyfeillion Plas Pengwaith Enillwyr y bêl bonws am fis Mai oedd Nia Evans a Goronwy Lewis.



Mapiau i Ysgol Dolbadarn

Mae darllenwyr yr Eco eisioes yn gwybod am waith 'Cynllun Cerdded a Darganfod Menter Fachwen' ac yn arbennig y gyfres o fapiau hanes lleol mae'r prosiect wedi eu cyhoeddi. Hefyd, bydd y rhaglen o deithiau cerdded misol y Cynllun yn ymddangos yma yn yr Eco. Y mapiau diweddaraf i'w cyhoeddi yw Llanberis/Nant Peris a Chylchdaith Llyn Padarn a chyflwynwyd taflen Llanberis wedi ei fframio i Ysgol Dolbadarn yn ddiweddar ynghyd a chyflenwad ohonynt i'r ysgol i'w defnyddio.

Mae'r mapiau hyn, a'r holl rai eraill mae'r Cynllun wedi eu cyhoeddi yn barod (gyda llawer mwy i ddod yn y dyfodol agos) ar gael yng Nghanolfan y Cynllun ar y Stryd Fawr yn Llanberis lle mae gan Menter Fachwen siop hefyd. Bydd tipyn o ddatblygiadau yn y Ganolfan yn y dyfodol agos gyda cynlluniau i agor Ystafell Gymunedol/Sinema (lle bydd rhaglen o sgysiau am hanes lleol, gweithdai celf a ffotograffiaeth ac ystafell addysg). Cewch ragor o fanylion am y datblygiadau hyn a syniad y 'Cynllun Cerdded a Darganfod' i ddatblygu 'Gwyl Ddarganfod' flynyddol yn yr Eco yn y misoedd i ddod.

Cysylltwch a Gareth Roberts ar 01286 870681 neu ar 'garethroberts754@yahoo.co.uk' am ragor o fanylion neu i dderbyn cylchlythyr misol am newyddion y cynllun.

Diolchiadau Dymuna Colin a Val Jones, Bryn Gelli, ddiolch am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu hŵyr, Tomos Cledwyn.

Dymuna Llifon a Bethan Jones, 1 Bryn Difyr Cwm Y Glo, ddiolch am y cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur genedigaeth Tomos Cledwyn.

Diolch Dymuna Helen, Ffordd Capel Coch, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion a dymuniadau da a dderbyniodd ar ei phen-blwydd arbennig ym Mis Mai.



Oedfaon Sul Capel Coch

GORFFENNAF

Sed: Gweinidog 10yb; Mr John H. Hughes am 5yh
12fed: Gweinidog 10yb; Oedfa Moli 5yh
19eg: Mr Huw Tegid Roberts 10yb; Dim Oedfa 5yh
26ain: Mr Huw Fôn Roberts 10yb a 5yh

AWST

2ail: Oedfa 10yb; Parch Olwen Williams 5yh
9fed Parch Cath Williams 10yb a 5yh
16eg: Glenys Jones 10yb; Parch Gwynfor Williams 5yh
23ain: Parch Iwan Llewelyn 10yb; DIM OEDFA 5yh
30ain: Gweinidog 10yb; DIM OEDFA 5yh

Dathlu penblwydd Ras yr Wyddfa.

Bellach mae Ras yr Wyddfa yn 40 oed. Ystyrir y ras yn un o'r rasys mynydd mawr yn denu rhedwyr da o nifer o wledydd ar draws Ewrop. Am y 40 mlynedd diwethaf y gymuned leol sydd wedi bod yn gyfrifol am ei threfnu - gwaith gwirfoddol aelodau'r pwyllgor ac eraill yn dangos ymroddiad dros yr holl flynyddoedd. Penderfynodd y pwyllgor eleni gyflwyno ras newydd ychwanegol i ddathlu'r 40 mlynedd - Ras y Gwyll. Dylai'r ras gynhyrchu incwm ychwanegol ac ychwanegu at fwrlwm y gweithgareddau. Bydd y ras hon eisoes wedi ei chynnal erbyn i'r rhifyn hwn o'r "Eco" eich cyrraedd. Bydd gweddill y gweithgareddau yn ystod yr wythnos Gorffennaf 11-19. A gobeithio y bydd y cyfan yn cael effaith gadarnhaol ar economi'r ardal. Bydd wythnos o ddigwyddiadau yn Llanberis, yn dod a hwyl carnifal i'r pentref ac yn dod i uchafbwynt ar Sadwrn y ras ei hun.

RAS YR WYDDFA #SNWDN76
18.07.2015

10.30AM CWSPAN YR WYDDFA SUPER CUP	2.00PM RAS WYDDFA SNOWDON RACE
11AM HWYL I BAWB	2.05PM RAS Y PLANT JUNIOR RACE
1.15PM GORYMDAITH O'R CAE I'R PENTREF PARADE FROM FIELD TO VILLAGE	4.30PM GWOBROWYO PRESENTATION

WWW.SNOWDONRACE.CO.UK

Mehefin 8 – Medi 1 Arddangosfa Ras yr Wyddfa – Ffotograffiaeth a Ffilm Mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd, bydd yr arddangosfa hon i'w gweld yn y Mynydd Gwefru, Llanberis, yn ystod oriau agor arferol y Galeri. Roedd yn dasg anodd dewis y lluniau a bydd 40 a mwy yn cael eu dangos yn y galeri. Ar yr un pryd yn y theatr ddarlithio bydd casgliad o recordiadau teledu o'r ras o 2004-2014. Mae'n awr o hyd a bydd yn dangos yn barhaol drwy'r dydd. Bydd llyfr sylwadau a blwch rhoddion pe carech gyfrannu at y ras. Diolch i bawb yn yr ardal a thu hwnt am y lluniau a'r eitemau arddangos.

Gŵyl RAS YR WYDDFA

Sadwrn 11 tan Sul Gorffennaf 19

Gorffennaf 10 Cystadleuaeth Knockout Pŵl, Y Clwb Cymdeithasol, Llanberis

Gorffennaf 13 Gyrfa Chwist, Y Clwb Cymdeithasol, Llanberis
Gorffennaf 14 Cystadleuaeth Ddartiau, Y Clwb Cymdeithasol, Llanberis

Gorffennaf 15 Ras 5k DMM Llanberis, Ffordd Padarn Llanberis 6.30pm

Cystadleuaeth Pŵl – Cyn derfynol a therfynol, Y Clwb Cymdeithasol

7.45pm Heights – Gig

Gorffennaf 16 Rasys Ieuencid, Y Ganolfan Gymunedol

Gorffennaf 17 BINGO Ras yr Wyddfa, Y Clwb Cymdeithasol, Llanberis

7.00 pm Eglwys Sant Padarn. Gwasanaeth Bendithio'r Rhedwyr gydag Esgob Bangor yn arwain.

Gorffennaf 18 – Diwrnod y Ras

10.30am Cwpan yr Wyddfa Super Cup (I fyny'n unig)

11.00am 'Hwyl i bawb' ras i'r teulu i rai dan 8 oed

1.15pm Cyn enillwyr a'r rhedwyr yn cerdded drwy'r pentref cyn y cychwyn

2.00pm Cychwyn 40fed Ras yr Wyddfa

2.05pm Cychwyn ras ieuencid yn y pentref

4.00pm Cyflwyno Gwobrau Ieuencid

4.30pm Prif Gyflwyno Gwobrau ar y Cae

5-7.30pm Pryd Bwyd i'r rhedwyr : Gwesty'r Victoria

7.30pm Cyflwyno Pellach – i'w gadarnhau

8.00pm Band 6 a Moniars, Y Clwb Cymdeithasol,

Gorffennaf 19 10am Taith Gerdded Clirio sbwriel llwybr yr Wyddfa
Ambiwylans Awyr

6.30pm Cyngerdd Ras yr Wyddfa, Eglwys St Padarn

Meinir Gwilym, Côr Ysgol Llanberis, Elin Mai, Iwan a'r triawd, Côr Ysgol Brynrefail

Ticedi £8 oedolion, £5 plant a phensiynwyr

Cronfa'r Pensiynwyr
Enillydd pêl bonws mis Mai oedd Mrs Janice Jones, Tyddyn Perthi, gyda rhif 24, Llongyfarchiadau!

Gwellhad – Dymunwn wellhad buan i Mr Dave Paterson 1, Bryn Tirion, wedi iddo dreulio cyfnod yn yr Ysbyty yn ddiweddar.

Croeso'n ôl - Dynaddymunwn i Megan, Emyr a Carwyn sydd wedi dychwelyd yn ôl i'w cartref yn 13 Bryn Tirion wedi iddo gael ei adnewyddu. Rydym yn edrych ymlaen at weld gweddill y cymdogion yn dychwelyd yn fuan!

Ysgol Gymuned Penisarwaen
Diwrnod darganfod Gwyddoniaeth – Treuliodd Bl 3 i 6 ddiwrnod ym Mhlas Menai dydd Llun, Mehefin 22ain, cawsant brofiadau da yn darganfod gwahanol bethau Gwyddonol.

Ymweliadau Archfarchnad - Cafodd plant Dosbarth derbyn a Bl 1 a 2 gyfle i ymweld â Tesco, Caernarfon, bore Mawrth, Mehefin 23ain, fel rhan o'r prosiect "O'r Fferm i'r Fforc" a drefnir gan y cwmni. Yn yr un modd fe aeth Bl 3 i 6 i Tesco Bangor y diwrnod canlynol i fod yn rhan o'r un prosiect. Derbyniodd pawb groeso arbennig yn y ddau safle.

Symud Dosbarthiadau - Bydd Dydd Mercher, Gorffennaf 1af, yn ddiwrnod prysur iawn yn yr Ysgol pan fydd pawb yn cael cyfle i symud i fyny i'r dosbarth y byddant ynddo ym mis Medi. Yn ogystal byddwn yn gwahodd y plant a fydd yn mynychu'r Ysgol am y tro cyntaf yn y dosbarth meithrin yma am y bore. Gobeithio y bydd pawb yn mwynhau'r profiadau yma yn fawr iawn.

Ymweld â'r Ysgol Uwchradd - Bydd Bl 6 yn cael cyfle i fynd ar eu hail ymweliad ac Ysgol Brynrefail dydd Mercher, Gorffennaf 1af. Dymunwn y gorau i Enlli, Abbi, Georgia, Mair, Izzie, Liam, Daniel, Carwyn ac Aron, pan fyddant yn cychwyn eu haddysg yno ym Mis Medi.

Cymanfa Ganu yn Eglwys Santes Helen - Cynhelir Cymanfa Ganu i gau gweithgareddau wythnos y Carnifal yn yr Eglwys Nos Sul 12/7/15 am 6:30 o'r gloch. Bydd eitem gan blant yr Ysgol yn ystod y noson, a gwerthfawrogn eich cefnogaeth.

Tripiau diwedd Tymor yr Haf - Dydd Mawrth, Gorffennaf 14eg, bydd Dosbarthiadau 3, 4, 5 a 6 yn mynd i Plas Menai. Byddant yn cael y cyfle i fynd ar daith ffantastig ar hyd y Fenai mewn cychod RIB gan gael manteisio ar gyfleoedd gwych i atgyfnerthu gwybodaeth a dealltwriaeth wyddonol, hanesyddol a daearyddol yr un pryd. Bydd Dosbarthiadau Derbyn a Bl 1 a 2 yn mynd i Fferm y Foel ar yr un diwrnod. Gan eu bod wedi bod yn dilyn thema "Y Fferm" y Tymor yma, bydd y diwrnod yma yn hwyl iddynt yn cael gweld y gwahanol anifeiliaid a chyd chwarae yn yr awyr iach. Gobeithiwn am dywydd braf ar y diwrnod!

Mabolgampau - Gobeithir cynnal y mabolgampau bnawn dydd Mawrth, Gorffennaf 7fed, am 1:30 o'r gloch os bydd y tywydd yn caniatáu. Croeso cynnes i bawb ddod draw i gefnogi'r plant. (Gorffennaf 9 a 16 fel dyddiadau wrth gefn os na fydd y tywydd yn caniatáu)

Pob dymuniad da i bawb o'r ardal sydd yn disgwyl canlyniadau TGAU a Lefel Uwch yn mis Awst

Gwyliau'r Haf - Bydd yr Ysgol yn cau 17/7/15 ac yn ail agor i'r plant 2/9/15.

Llongyfarchiadau i Losin Pinc, grŵp o divas a gyflawnodd y wobwr gyntaf ym Mhencampwriaeth Celfyddydau Perfformio Dinbych ar ddydd Sul, 14 Mehefin. Sasha fu'n arwain y dosbarthiadau dawns dros gyfnod o ddeg wythnos, lle yr addysgir y plant ifanc a'u helpu i gyflawni eu potensial llawn.

Yn y llun mae pedair merch a berfformiodd yn rhan o'r grŵp; Simone, Megan, Lois a Nel, i gyd o Ysgol Penisarwaun, yn dal eu tystysgrifau gyda balchder gyda'u cyflawniad. Da iawn chi

genod!

Genedigaeth Yn Ysbyty Singleton, Abertawe, ar 1 Mehefin, ganwyd Mabon Llŷr, mab bach i Eurig a Bethan Llangennech – brawd bach i Ifan Elis, cefnder bach i Gwen Elin a Cadi Lois yn Llangefni a Deio Glyn a Casi Glyn yng Nghaerdydd. Croeso mawr i Mabon gan Taid Tegid a Nain Nant, Arwel, a'r teulu i gyd.

Pwyllgor Neuadd Gymuned Ddiwedd Mai cynhaliwyd cyfarfod arbennig yng Ngallt y Glyn, Llanberis, gan drefnwyr Marathon Eryri i gyflwyno sieciau i wahanol grwpiau cymdeithasol o fewn yr ardal. Dymunir diolch am y siec hael er budd rheoli'r Neuadd Gymuned a bu'n fraint gan y gwirfoddolwyr i gynorthwyo trefnwyr y Marathon. Cynhaliwyd 'Miri Mai' a dymunir diolch i Mr Rees, Pennaeth yr ysgol a phlant blwyddyn 5 a 6 am drefnu'r rasys a'r gemau. Tynnwyd Clwb Cant Mehefin a'r enillwyr oedd Brenda Richardson, 6 Bryn Hyfryd ac Osian a Beca, Bryn Rhydd, Llandegfan.

Eisteddfod Bentref 2015 Cynhelir Pwyllgor nos Lun, Gorffennaf 13, am 7.00 o'r gloch i gadarnhau Testunau'r Eisteddfod ac i drefnu Noson Bingo a gynhelir nos Fercher, Medi 16 am 6.30 yn y Neuadd Gymuned. Bydd cyfle i rannu Testunau'r Eisteddfod a dyddiadau ymarferion ar y noson. Rydym yn falch o ddeall fod Phyllis a Carys wedi gwella wedi eu triniaethau.

Ysgol Sul Bosra Atgoffir aelodau'r Ysgol Sul am Gymanfa'r Methodistiaid, 'Miri Mehefin', a gynhelir bnawn Sul, Mehefin 28ain, am 2.00 o'r gloch yng Nghapel Shiloh, Tregarth, gyda the bach i ddilyn i bawb yng Nghanolfan Gymdeithasol Tregarth. Gwneir casgliad ac mae maes parcio yn ymyl y capel. Hyderir y ceir cefnogaeth deilwng.

Cynhelir Cymanfa Cylch Deiniolen, Cwm-y-glo, Penisarwaun a Llanberis bnawn Sul, Medi 29fed am 2.00 o'r gloch yn Neuadd Gymuned


Penisarwaun. Gwneir casgliad tuag at Gynllun EFE.

Eglwys St Helen

Bro Eryri Bore Sul, Mai 17eg, yn Eglwys St Padarn, Llanberis, fe gynhaliwyd gwasanaeth arbennig i sefydlu ardal weinidogaeth newydd Bro Eryri gan y Gwir Barchedig Andy John, Esgob Bangor. Mae'r ardal yn rhan o strategaeth 2020 newydd yr Eglwys yng Nghymru i wasanaethau gwahanol ardaloedd i'r dyfodol ac mae Bro Eryri yn cynnwys yr eglwysi canlynol: St Deiniol, Llanddeiniolen; St Mihangel, Llanrug; St Helen, Penisarwaun; Eglwys Crist Llandinorwig; St Padarn, Llanberis a St Peris, Nant Peris. Bydd yr ardal yn cael eu gwasanaethu gan dîm o glerigwyr a lleygwyr o dan arweiniad y Parch Ddr Carol Roberts. Bydd y Parch Ganon Robert Townsend yn rhan o'r tîm hefyd.

Fel eglwys, rydym yn edrych ymlaen i gydweithio ym Mro Eryri ac ar fore dydd Sul, Mai 31ain, fe gafwyd gwasanaeth clodwiw lle daeth eglwysi yr ardal ynghyd i gyd-addoli yn St Helen. Braf oedd cael cyfle i groesawu y Parch Ddr Carol Roberts a phawb i St Helen a chael paned a sgwrs yn Neuadd yr Eglwys i ddilyn y gwasanaeth. Nid yw rota gwasanaethau mis Gorffennaf ac Awst wedi eu trefnu eto ond y drefn benodol fydd gweinyddiad o'r Cymun Bendigaid am 11.00 y bore bob dydd Sul gyda chyhoeddiad yn cael ei wneud yn wythnosol pan fydd newidiadau i'r patrwm.

Neuadd yr Eglwys Mae cynlluniau ar y gweill i adnewyddu Neuadd yr Eglwys. Yn ystod mis Gorffennaf bydd cyfle i bawb gael golwg ar y cynlluniau mewn manylder ac rydym yn edrych ymlaen i gael adborth gan bawb ar y math o adnoddau yr hoffent eu cael yn yr adeilad. Mae holiaduron ar gael yn awr yn y neuadd a'r Eglwys. Am wybodaeth pellach cysylltwch ag un o swyddogion yr eglwys.



www.fframia.com

FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LLUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwyr

CHIROPODYDD

RICHARD THOMAS SRCh/HPC

GALWADAU I'R CARTREF

Cysylltwch Symudol 0797 631 6487 • Tŷ 01758 612384

30 MLYNEDD
o waith yn y
GWASANAETH
IECHYD

Parhad PENISARWAUN

Cydymdeimlad Ar Fehefin 4ydd, yn annisgwyl yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Alwyn Jones, Racca Cottage, priod a ffrind gorau y ddiweddar Sarah, brawd Eric, Jean a Marion ac ewythr Geraldine, Patrick, Eirian a Delyth. Estynnir ein cydymdeimlad llwyraf â chi fel teulu o golli brawd a chwaer yng nghyfraith a hynny o fewn ychydig fisoedd i'w gilydd.

G e n e d i g a e t h Llongyfarchiadau mawr i Eurgain Haf ac Ioan, Rhiwen, Pontypridd, ar enedigaeth rhodd o ferch fach, Lois Rhodd, chwaer fach i Cian Harri ac wyres i Ann a Dafydd, Sycharth ac Eyron a Denise, Hengoed, Caerffili. Llawer o gariad gan y teulu i gyd. **Llongyfarchiadau** i Osian Dafydd, Sycharth gynt, ar ennill Gradd MA ym Mhrifysgol Bangor a da deall dy fod wedi gwella'n dda erbyn hyn.

Carnifal ac Wythnos o Weithgareddau

Bydd wythnos o weithgareddau yn cael eu cynnal eleni o Orffennaf 6ed hyd at Orffennaf 12fed – dyma fydd y drefn:

Nos Lun, 6ed: Bingo yn Neuadd yr Eglwys am 6.30 o'r gloch.

Nos Fawrth, 7fed: Gyrfa Chwist arbennig yn Neuadd yr Eglwys am 7.30 o'r gloch.

Nos Fercher, 8fed: Mabolgampau i bob oed ar gae yr Ysgol Gymuned am 6.00 o'r gloch.

Nos Iau, 9fed: Disgo plant yn Neuadd yr Eglwys am 6.30 o'r gloch.

Nos Wener, 10fed: Helfa Drysor yn dechrau o Neuadd yr Eglwys am 6.00 tan 6.45 ac yn diweddu mewn gwesty am bryd o fwyd.

Dydd Sadwrn, 11eg: Y Carnifal ar gae yr ysgol am 1.30 o'r gloch. Bydd yr orymdaith yn cychwyn o'r Cartref Nyrsio am 1.30 ac ar y cae bydd Stondinau, Castell Neidio, Gemau, Raffl, Siop, Hufen Iâ ac yn y blaen. Sêl Cist Car am £3 y car a mynediad i'r cae yn £1 i oedolion a 50c i blant. Am ddim i bawb sydd mewn gwisg ffansi.

Nos Sul, 12fed: Cymanfa Ganu yn Eglwys St Helen am 6.30 o'r gloch. Yr Arweinydd fydd Mrs Lowri Roberts Williams, Brynrefail a'r organydd fydd Dr William Munro gyda eitemau gan Gôr Plant Ysgol Gymuned Penisarwaun a Chôr Meibion Dinas Bangor. Bydd taflenni gyda manylion pellach yn cael eu dosbarthu o gwmpas y pentref cyn gynted â phosib.

Estynnir croeso cynnes i bawb ym mro yr Eco i gymryd rhan a mwynhau yr holl weithgareddau.



Yr Ysgwrn

Sioe awyr agored

Swl!t y Brenin

Blas ar brofiadau'r Rhyfel Byd Cyntaf
drwy gerddi a straeon llawr gwlad

Gyda TWM MORYS, IFOR AP GLYN, a MYRDDIN AP DAFYDD

Nos Wener, Gorffennaf 24^{ain} am 6:30y.h yn Yr Ysgwrn

Dewch â phicnic a mwynhewch 'las orielau' cartref Hedd Wyn
Bydd ffermdy'r Ysgwrn ar agor o 5.00yh i ymwelwyr

This is a Welsh language show about the First World War portrayed through poetry, letters and newsprint.
Welsh learners are very welcome.

Cysylltwch a Jess/Sian ar 01766 770274



Bydded Goleuni...

Flynyddoedd yn ôl cefais gryn brofiad mewn llywodraeth leol. Bûm yn aelod o Gyngor Dosbarth Gwyrfai, Cyngor Dosbarth Nant Conwy a Chyngor Bwrdeistref Aberconwy. Ni chawn fod yn aelod o'r cyngor sir gan fy mod yn cael fy nghyflogi gan y sefydliad hwnnw. Tra ar Gyngor Gwyrfai bu dau ddigwyddiad pwysig yn hanes ein bro. Gwerthwyd Chwarel Glynrhonwy i gwmni preifat, a bu cychwyn ar sefydlu yr orsaf bŵer yn Chwarel Dinorwig.

Rhoddwyd enw tri lleoliad ymlaen i sefydlu yr Orsaf Drydan, sef Croesor, Cwmpenanner yn Nolwyddelan a Chwarel Dinorwig. Dinorwig a orfu ac ar ôl blynyddoedd o gynllunio ac adeiladu arbennig fe gaed gorsaf unigryw ym mherfedd yr hen chwarel. Cuddiwyd hagrwch cynnydd a chreithiau brwnt yr hen chwarel, ac yn ei lle ceir yr orsafhynod hon. Erbyn heddiw mae'r Mynydd Gwefru wedi ymdoddi yn naturiol ac effeithiol i dirwedd hardd y fro gan greu trydan mewn dulliau glân a diogel. Daeth adeiladu'r orsaf â chyflogau da i'r ardal am gyfnod ac yn awr mae yn dynfa ryfeddol i ymwelwyr.

Prynwyd Chwarel Glynrhonwy gan y Cyngor Sir ac am flynyddoedd bu'n ddraenen boenus yn ystlys y cyngor. Bu sawl ymdrech ar ddatblygu y lle ond braidd yn siomedig fu'n canlyniadau. Gwariwyd arian ac arian ar hysbysebu y safle a thrwm fu'r gost o gadw'r terfynau. Mae'n wir fod adeilad yn ymdrin â moddion yn effeithiol yma, ond ofer sawl tro fu ceisio sefydlu diwydiant o'r iawn natur ar y safle.

Ond yn ddiweddar daeth tro ar bethau. Sefydlwyd maes carafannau ar un rhan o'r chwarel a gobeithir y bydd y maes hwn yn profi o fudd i'r rhan ogleddol o'r pentref gan chwistrellu bywyd a chyllid.

Ar y llaw arall, gobeithir creu gorsaf drydan ar yr un egwyddor â'r Mynydd Gwefru, drwy ddefnyddio rhan o'r chwarel. Credaf fod hwn yn ddatblygiad cyffrous, uchelgeisiol ac addas i'r safle. Yr wyf yn gefnogol o'r cynllun hwn, sef cynllun fydd yn creu trydan a grym a hynny heb fod yn beryglus, megis gorsaf niwclear.

Ond, mae rhai agweddau yn peri gofid i mi. Bydd y gweddill o'r dŵr a ddefnyddir i droi y tyrbeini yn cael ei arllwyso i Lyn Padarn. Mae'r dŵr hwn yn gynnes ac yn hynod beryglus i fywyd y torgoch. Pysgodyn dŵr oer o Oes yr Iâ yw y torgoch. Yr ydym ni yn ymfalchio fod y torgoch prin gennym yma yn Llyn Padarn a gofid i ni oll fuasai deall fod y dŵr a arllwysir i'r llyn yn amharu ar fodolaeth y pysgodyn.

Problem arall yw trosglwyddo y trydan i'r Grid Cenedlaethol. Rwy'n sicr y byddai y gost o gloddio y gwifrau trydan tan y ddaear yn ormodol ac y bydd yn rhaid dioddef y peilonau hagr yn ysgaru yr wybren.

Ond ar y cyfan credaf mai datblygiad o'r iawn ryw a geir yn Chwarel y Glyn ac yn sicr bydd Gorsaf Drydan Glynrhonwy yn gaffaeliad i ddiwydiant yn y rhan ogleddol o'r pentref.

John H. Hughes

Cyrsiau Undydd a Digwyddiadau'r Haf yn Nhy newydd, Llanystumdwy.

Diddordeb mewn ysgrifennu? Os oes, mae digon o amrywiaeth a chyfleoedd i chi yn Llanystumdwy dros fisoedd yr haf ac ymlaen i'r hydref.

Wedi mwynhau anturiaethau trigolion Porth yr Aur gyda Harri Parri? Syniadau am straeon o'r un math? Yna, archebwch eich lle ar gwrs undydd "Hiwmor mewn Llenyddiaeth" gyda Harri Parri ei hun ar ddydd Sadwrn, 11eg o Orffennaf.

Nos Wener, 17eg Gorffennaf bydd Guto Dafydd yn siarad am ei nofel newydd.

Dydd Sadwrn, 25ain Gorffennaf, cwrs undydd i gyfansoddwyr feithrin eu dawn. Dowch a'ch offerynnau gyda chi. Cyfle i gyd-chwarae, derbyn adborth ar eiriau a cherddoriaeth gan Gwilym Bowen Rhys a gethin Griffiths, dau o artistiaid disglair y sin werin. Noson meic agored am saith yr hwyr.

Dydd Sadwrn, 22ain Awst, cwrs undydd gyda Manon Steffan Ros ar gychwyn eich nofel.

Dydd Sul, 13eg Medi. Y gyntaf o gyfres o chwech o wersi cynganeddu gyda'r Prifardd Twm Morys.

Dydd Sadwrn, 19eg Medi, cwrs undydd gyda'r Prifardd Myrddin ap dafydd ar y Mesurau Rhydd Cymraeg.

Dydd Sadwrn, 26ain Medi, cwrs undydd gyda Haf Llewelyn ar ysgrifennu hanes teulu sef Troi ffeithiau yn ffuglen.

Dydd Sadwrn, 10fed Hydref, cwrs undydd gydag Angharad Tomos – Ysgrifennu ar gyfer plant.

Am fanylion prisiau ac amseroedd yr holl wahanol gyrsiau cysylltwch efo Canolfan Ysgrifennu Ty Newydd, Llanystumdwy. LL52 0LW neu 01766522811 neu www.tynewydd.org / tynewydd@llenyddiaethcymru.org.

Ond cofiwch, mae llefydd ar y cyrsiau yn gyfyngedig, felly archebwch rhag blaen!



Matthew Guy



Mae cogydd o Ddeiniolen, a fu ar ymweliad a'i hen ysgol, wedi bod yn cymysgu â rhai o'r goreuon yn y busnes mewn cystadleuaeth deledu i ennill ei swydd ddelfrydol. Matthew Phillip Guy, 27 oed, yn un o'r cystadluewyr oedd yn gobeithio ennill swydd wag fel prif gogydd mewn sefydliad ar



raglen BBC 2 Alex Polizzi: 'Cogyddion ar Brawf'. Mae'r sioe yn gweld cyflwynydd The Hotel Inspector ymgymryd â'r her o ddod o hyd i gogyddion ar gyfer bwytai sydd â gwir angen i lenwi swydd wag .

CONFENSIWN ADDYSG UWCH UCAS



Mae Prifysgolion Prydain yn mynychu nifer fawr o Ffeiriau UCAS bob blwyddyn. Mae'r rhain yn rhedeg o fis Mawrth i fis Mehefin pob blwyddyn ac wedi eu hanelu at ddisgyblion



blwyddyn 12 yn bennaf. Mae'r ffeiriau yma'n rhoi cyfle i ddisgyblion ddarganfod mwy am gyrsiau Addysg Uwch a sefydliadau cyn gwneud cais.

“Y byd i’n disgyblion a disgyblion i’n byd”



Snowdon Rocks 2015



Fe fu Mike Peters, ‘Alarm’ yn Ysgol Brynrefail yn rhedeg gweithdai gyda grwp bechgyn B10 (‘Yr Ymylon’) a chôr yr ysgol - wrth baratoi ar gyfer perfformio yn ‘Snowdon Rocks’ yn Llanberis ar ddydd Sadwrn, 20fed Mehefin - gweithgaredd codi arian at elusen Cancr Gogledd Cymru.

Mae cerddwyr araf a chyflym, hen ac ifanc yn ymuno yn y daith gerdded i fyny’r Wyddfa a bod yn rhan o’r cyd ganu ar yr ochr mynydd.

Yng ngeiriau Mike Peters:

"Mae fy nheulu a ffrindiau wedi sefydlu Snowdon Rocks am ein bod am ddiolch i'r holl bobl sydd wedi bod wrth fy ochr. Yn

ystod y saith mlynedd diwethaf ffrindiau, gan gynnwys staff gofal iechyd a chleifion eraill, a'r teulu sydd wedi ymuno â fi i gerdded a chanu tuag at gopa'r Wyddfa. Rydym yn dod at ei gilydd i ganu ar ochr y mynydd, ac yn codi arian ar gyfer gwasanaethau canser yn lleol. Rydym wedi creu gwyl fach ond fythgofiadwy o gerddoriaeth, diolch, dathlu a chofio. Yn ymuno eleni bydd cerddorion gwadd arbennig ac enwogion gan gynnwys Derek Brockway y 'Weatherman Walking' poblogaidd a chyn bel-droediwr Cynghrair y Pencampwyr , David May.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD CAERFFILI 2015

Fe gafwyd llwyddiant aruthrol eto eleni yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a gynhaliwyd yng Nghaerffili. Mae enwau’r buddugwyr a’u lluniau wedi eu cynnwys ar dudalen 4 o’r rhifyn hwn.

Marwolaeth Yn dawel yn ei gartref, 4 Tan y Foel, Gallt y Foel, yng nghwmni ei deulu bu farw John Idwal Maxwell yn 73 mlwydd oed ar ôl salwch creulon a blin a frwydrodd yn ddewr. Gŵr cariadus a ffyddlon Elizabeth, tad annwyl iawn i Haydn, Tony a Gwynant, tad yng nghyfraith balch a thaid amhrisiadwy i naw o blant annwyl a chariadus iawn. Bu John yn byw yma yn yr ardal yn ystod ei blentyndod ac ar ôl priodi aeth i fyw i Gallt y Foel ond yn dal i gael ei weld yn yr ardal o dro i dro. Wrth ei fodd yn cael sgwrs hefo llawer un oedd yn pasio ei gartref, gan y byddai yn aml iawn yn sefyll yn y drws. Bu yn wael am beth amser a bu i Elizabeth wylio drosto yn annwyl iawn pan fyddai gartref, gan iddo fod am beth amser yn Ysbyty Gwynedd a Wrecsam. Bu ei gynhebrwng yn Eglwys Crist Llandinorwig yn gyhoeddus, lle y daeth llawer ynghyd i dalu y deyrnged olaf iddo ar 30 Mai.

Yn gwasanaethu yn yr angladd roedd ei gefnder, y Parch Dewi Morris, gyda'r Parch John Pritchard a'r Canon Idris Thomas, a rhoddwyd ef i orffwys ym Mynwent Macpelah Deiniolen.

Elizabeth a'r teulu oll, derbyniwch gydymdeimlad ardal Dinorwig a gobeithio y cewch nerth ac iechyd yn ystod y dyddiau tywyll yma. Mae gennych lu o atgofion melyn, a bydd y rhai yma o nerth ichwi. 'Ymdrechodd ymdrech deg'.

Yn yr Ysbyty Bu i Mrs Iona Wyn Phillips orfod mynd i Ysbyty Gwynedd i gael llawdriniaeth ond erbyn hyn wedi cael dod gartref ac yn gwella o ddydd i ddydd. Iona, brysia wella a paid â gwneud

gormod yn y dechrau fel hyn, pawb yn yr ardal yn anfon ein cofion gorau atat.

100 Oed

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Megan Morris, Minffordd gynt, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 100 oed ar Fehefin 11. Mrs Morris yn cartrefu erbyn hyn yn Plas Garnedd, Llanberis, ac yn hapus iawn yno. Cafodd barti pen-blwydd i'w gofio yn Ffestri Penueel, Bangor, lle y bu iddi fwynhau ei hun yng nghwmni Eurwyn a Marsli a'r teulu oll. Mrs Morris ymlaen am y 100 nesaf a gobeithio am bob bendith, iechyd a hapusrwydd i'r blynyddoedd a ddel. Pawb yn yr ardal yn dymuno yn dda ichi.

Hefyd bydd Mrs Eve Braithwaite, hithau yn dathlu ei chant ar 26 o Awst. Mae Mrs Braithwaite yn cartrefu hefo'r ferch, Pat Sellars, yn Bron Elidir, ac yn cael cartref da a phob gofal, gan obeithio y cawn ddathlu y cant hefo hi yn Awst.

Marwolaeth Ar 1 Mehefin daeth y newydd trist i'r ardal am farwolaeth Mrs Eileen Davies, 10 Bro Elidir. Bu farw yng nghwmni ei theulu yn Ysbyty Gwynedd yn 85 mlwydd oed. Yr oedd yn wraig i'r diweddar Gwilym Davies, a'i rhagflaenodd un mlynedd ar ddeg yn ôl, a mam annwyl iawn i Gareth, Valmai a Gwyneth, a hwythau wedi bod yn ofalus iawn ohoni. Fel un o blant Buarth Newydd y cofiwn ni am Eileen, ei mam yn un o efeilliaid Buarth Newydd, sef Lizzie, er mai o ochrau Lerpwl y daeth yn blentyn i Ddinorwig ac fe aeth i ysgol Dinorwig. Daeth i Buarth Newydd hefo Eurwyn, ei brawd, yn ystod yr Ail Ryfel Byd, yn 9 oed. Wedi i'r rhyfel ddod i ben aeth adref

yn ôl am rhyw dair blynedd ond yn ôl i Buarth Newydd y daeth at ei thaid, Owen Thomas, a'i modryb Nel, lle y cafodd gartref ardderchog. Daeth yn un o blant yr ardal yn fuan iawn.

Yn ddiweddarach bu iddi briodi â Gwilym Davies, Bryn Felin, un arall o blant yr ardal. Wedi hyn daeth Gareth. Bu iddynt fyw yn Buarth Newydd am gyfnod hyd nes iddynt gael tŷ yn 10 Bro Elidir, pryd y ganwyd Valmai ac yna Gwyneth.

Bron na allaf ddweud na newidiodd Eileen o'r diwrnod cyntaf y gwelais hi, hyd y diwrnod olaf. Yr oedd bob amser hefo gwên ar ei hwyneb ac yn hynod o glên a hoffus. Cofiaf amdani fel person hynod o annwyl ac yn meddwl y byd o'r plant a'i theulu.

Bu ei hangladd yn yr Amlogfa ym Mangor ar 10 Mehefin lle y daeth tyrfa fawr ynghyd i dalu'r deyrnged olaf iddi. Cymerwyd y gwasanaeth gan y Parchedig Ddoctor Huw John Hughes a roddodd deyrnged dda iddi.

Fe fydd yr ardal yn wag iawn hebddi a bydd andros o golled i'r plant ar ei hôl. Does neb tebyg i mam na nain. Nain yn gadael iddynt gael bob dim a'r ddau bach yn caru nain yn fawr. Gareth, Valmai a Gwyneth, mae gennych atgofion gwych o'ch mam, a'i brawd Eurwyn a'r teulu i gyd. Pan ddaw hiraeth a deigr yn cofiwch am yr amser da a gawsoch ar yr aelwyd, ac fe ddaw hyn â chysur mawr ichi. Mae amser yn gwella pethau ond ni allwch byth anghofio. Eileen, cwsg a gwyn eich byd.

Trychineb Ar fore Sul, 7fed o Fehefin, daeth y newydd trist i'r ardal fod Alexander Hadley wedi boddi yn 21mlwydd oed yn Rhaeadr y Wyddfa, Llanberis. Yr oedd Alex yn fab i Stuart Hadley, 2 Ty'n y Fawnog.

Cydymdeimlwn yn fawr â'i dad a'r teulu oll yn eu galar a gobeithio y cânt nerth yn ystod y dyddiau tywyll yma oherwydd maint y golled. Colli plentyn mor ifanc yn andros o drychineb.

Unwaith eto mae yn rhaid diolch i Dîm Achub Llanberis am roi eu bywydau eu hunain mewn perygl i drio achub un o'r bechgyn, ac hefyd bechgyn y Frigad Dân. Diolch o galon, hogiau, mae y gwaith yr ydych yn ei wneud yn amhrisiadwy.

Seindorf Deiniolen a'r Cylch Llongyfarchiadau

mawr i'r Seindorf ar ennill y wobr gyntaf yn y Drennewydd ar y Sul, 14 o Fehefin, o dan arweiniad Osian Thomas, sef mab y Canon Idris Thomas ac Ann. Idris yn un o blant ardal Dinorwig ac y mae'r ardaloedd yma yn lwcus iawn fod Idris wedi ymddeol yn ôl i'r yma ac o gymorth mawr i'r ardal mewn llawer ffordd. Mae yn barod ei gymwynas bob amser. Rwyf yn deall fod gwraig Osian, Llio, yn arwain y Seindorf Ifanc, neu y plant bach. Mae oed y Seindorf Ieuencid o 9 i 17 oed.

Osian, dal ati hefo'r gwaith yr wyt yn ei wneud hefo'r ieuencid. Da iawn chdi, a diolch iti am dod â chlod i'r ardal unwaith eto.

Clwb Orwig Nid yw'r clwb wedi ei gynnal ers tro oherwydd fod mwy nag un o'r Swyddogion ddim yn dda eu hiechyd, ac hefyd oherwydd marwolaethau – mae'r clwb wedi colli nifer o aelodau. Hyderwn y bydd y swyddogion yn gallu ailafael hefo'r clwb. Drwy y clwb yma y daeth y Gofeb i'r Chwarelwyr. Deallaf erbyn hyn mai Martin, Tŷ Capel Cefn y Waun sydd yn gofalu am y cennin Pedr. Diolch o galon iddo am gadw y Gofeb yn dwi. Ar Sul gweddol braf rhyw dair wythnos yn ôl yr oedd 58 o geir yn yr Allt Ddu a thair carafanet, ond yn anffodus yr oedd y bin sbwriel yn orlawn, felly ar lawr wrth eu traed yr aeth y sbwriel.

Beth sydd o'i le ar roi y sbwriel yn eich cerbyd a mynd â fo gartref? Os gwelwch yn dda gwnewch eich gorau i gadw'r lle yn daclus.

Deallaf fod y Chynghorydd Elfed Williams wedi gofyn i Gyngor Gwynedd ddod yn amlach i wagio y bin, a hyd yma mae hynny yn cymryd lle. Diolch yn fawr i Elfed ac i Gyngor Gwynedd gan obeithio y pery pethau i wella yno.

Swyddogion Clwb Orwig a'r aelodau, Brysiwch wella er mwyn cael cyfarfod o'r clwb unwaith eto.

Gwyliau Gan fod y rhifyn yma o'r Eco yn un cyn y gwyliau, ga i ddymuno gwyliau hapus i bawb a gobeithio am dywydd braf a phan ddaw canlyniadau yr arholiadau allan, gobeithio y byddant wrth eich bodd. Pob lwc ichwi. Felly y mis nesaf fydd dim Eco ar ôl y rhifyn hwn tan ddiwedd Awst neu ddechrau Medi. Gwyliau hapus a dedwydd i bawb a gobeithio a dipyn o HAUL.

Elusen

Cronfa Goffa R. H. Owen

GWAHODDIR CEISIADAU AM GRANTIAU

Gwahoddir ceisiadau oddi wrth ymgeiswyr cymwys o ddalgylch **YSGOL BRYNREFAIL** am **GRANTIAU** o'r gronfa uchod ar gyfer hyrwyddo addysg bellach

Am ffurflen gais anfonwch at
Yr Ysgrifennyddes-
Mrs. Heather Jones

3 Maes Padarn, Llanberis
LL55 4TE

cronfarhowen@aol.co.uk

DYDDIAD CAU
Hanner Nos
30 Medi 2015

Parhad DINORWIG



"GWYDN YW'R COF"

Ar yr 8fed o Fehefin piciais draw i gartref Plas Garnedd yn Llanberis i ymweld â Megan Price Morris, gynt o Minffordd, Dinorwig, a hynny dridiau cyn iddi ddathlu ei phen-blwydd yn gant oed. Daeth i Plas Garnedd yn Ionawr eleni ac mae'n hapus iawn ei byd yno. Mae'n canmol caredigrwydd y gofawyr, y bwyd ac wrth gwrs yr olygfa wych i fyny tua Dinorwig.

Roedd y croeso yn gynnes ganddi a dyma yn syth sgwrsio am y can mlynedd ac roedd ei chof mor fyw a'i lleferydd mor rhwydd. Yn angladd ei chwaer, Alice Myfanwy, yng Nghapel Sardis Dinorwig y gwelais hi ddiwethaf ar y 13eg o Ebrill a chofiai yn iawn am y bwriad oedd genhyf i gael cip olwg ar ei bywyd. Edrychai ymlaen i ddathlu ei phen-blwydd arbennig yn festri Capel Penuel, Achos y Bedyddwyr Cymraeg ym Mangor, lle byddai teulu a ffrindiau yn dod ynghyd.

YDECHRAU

Fel'i ganed ar Fehefin 11eg, 1915, ym mwthyn Minffordd sydd, fel y dywed yr enw, wrth ochr y ffordd ar ôl pasio adeilad lle bu Eglwys Sant Mair a gerllaw i'r fan a elwid Chwarel Fawr. Ei thad oedd John Price Morris a anwyd yn 1881 ac a fu farw yn 1955, a'i mam oedd Ann Morris a anwyd yn 1882 ac a fu farw yn 1944. Ganwyd iddynt chwech o blant sef Gwladys a aned yn 1907, William Goronwy (1911), John Emrys (1913) Megan Price (1915), Abram Huws (1920) ac Alice Myfanwy (1924). Magwyd Gwladys yn Y Foel gerllaw gyda'i thaid a'i nain, sef William ac Alice Hughes. Derbyniodd Megan, fel yr holl blant, fagwraeth dda. Rhoddodd dri phen wrth ddisgrifio mai bywyd ei thad oedd y Chwarel, ymarfer y Band (Seindorf Cynfi) a'r Capel, a gellir ychwanegu hefyd Llywydd y Gymanfa, Eisteddfod a chyfrifoldeb o redeg treialon cŵn defaid at y rhain. Tawel a gweithgar oedd ei mam. Addoli yng Nghapel Sardis fyddai'r teulu gyda'r drefn arferol o'r Ysgol Sul yn y pnawn ac oedfaon yn y bore a'r hwyr. Y Capel Bedyddwyr hwn oedd yr Achos crefyddol hynaf yn ardal Dinorwig a bellach yr unig addoldy sydd ar ôl. Sefydlwyd yr Achos mewn addoldy bychan a, guddiwyd yn ddiweddarach gan rwbwl y Chwarel, ar Sulgwyn 1820 mewn lle a enwyd ar ôl y capel yn Pant Sardis. Agorwyd y capel presennol ar y Sulgwyn 1837. Mawr fu dylanwad gŵr o'r enw John Jones neu'r Hen Gloddiwr ar Gapel Sardis gan iddo gael ei ordeinio yn Weinidog yno yn 1844. Cyfunai yr Hen Gloddiwr ei waith fel Gweinidog yr Efengyl gyda'i waith fel pwyswr yn y Chwarel. Gwyddai Megan y cyfan am yr Hen Gloddiwr a meddyliai yn uchel amdano. Dyna pam y rhoddodd yr enw Marsli ar ei merch, sef enw gwraig y Parch John Jones. Mae cofgolofn i'r Gweinidog a'i deulu ym mynwent Macpela dros y ffordd i'm cartref yma yn Neiniolen. Disgrifiodd Megan Ddinorwig ei phlentyndod fel lle oedd yn ferw o weithgareddau amrywiol lle yr âi bob noson o'r wythnos iddynt.

YSGOL

Pan aeth i Ysgol Dinorwig gyntaf, athrawes dosbarth yr "infants" oedd Miss Mary Jones, Conglmynydd, oedd mewn cryn oedran ac wedi bod yno ers blynnyddoedd; Miss Jones, Rhiwlas, ddaeth yn ei lle a deuai i'r ysgol ar ei beic. Athrawes ardderchog ydoedd a roes sylfaen dda i'r plant i gyd.

Deunaw o blant oedd yn yr "infants" tua 1921/22 gyda Megan, sef Owen Thomas (Now Bach), Buarth Newydd; Hugh Parry, Chwarel Fawr; Alun John Owen, Felin Fawr, Bedwargoed; Ted Jones, Bryn Bela, Fachwen; Alun Roberts, Penybryn, Fachwen; Willie Alun Williams, Tai Felin, Allt Ddu; Jackie Owen, Groeslon Uchaf - wedyn Bigil; Hugh Thomas (fy nhad) - Siop Chwarel; Thomas Elwyn Jones Parry, Tanybryn, Llidiart y Clo; Dafydd John, Fuchas; Owie Jones, Tan y Fron; Sarah Olwen Thomas, Fachwen; Hannah Thomas, Chwarel Goch; Florence Davies, Felin Fach, Allt Ddu; Nellie Valmai Jones, Pendyffryn; Jennie Jones, Bryn Llys, Allt Ddu a Gwladys Evans, Clogwyn Gwyn.



Pan symudodd Megan i ddosbarth hynaf yr ysgol yr oedd 45 o blant yn y dosbarth gan gynnwys Will Morris, Pant Sardis, sef ei gŵr yn ddiweddarach a hefyd fy modryb Jennie Thomas, Siop Chwarel a'i brawd, sef fy nhad. Y Prifathro oedd W.D. Jones.

Mwynhaodd ei dyddiau ysgol yn Ninorwig. Fel fy nhad pasiodd Megan y "scholarship" yn 11 oed gan fynd i Ysgol Brynrefail. Cerddai plant Dinorwig ymhob tywydd i lawr Y Fachwen ac weithiau cawsant lifft gan ŵr o'r Fachwen ar y cart llefrith gyda'r ceffyl yn ei dynnu. Weithiau pan fyddai'r tywydd yn ddrwg, arhosent mewn cartref ym mhentref Brynrefail. Yn 1929 yr oedd Megan yn "Form 3" a'r athro dosbarth oedd Gwilym Jones a 27 o ddisgyblion oedd yn y dosbarth. Am y ddwy flynedd gyntaf yn yr "huts" oedd y dosbarth, yn wir yr oedd tair ystafell ddosbarth yno, a hynny mewn lle a ddefnyddiwyd cyn hynny gan y fyddin.

PRIODI a SYMUD

Yn 15oed gorfu i Megan adael yr ysgol i ofalu am ei mam a oedd yn sâl, ynghyd â gofalu am ei brawd Abram yn ogystal. Yn 16 oed cafodd fedydd trochiad yng Nghapel Sardis a bedyddiwyd Gwladys Evans, Gwynfryn, yr un pryd â hi. Aeth Gwladys i Lerpwl i nyrsio. Yn 20oed priododd Megan â William Owen Morris, Pant Sardis a anwyd yn y Felinheli. Roedd ei dad, Thomas Morris, wedi bod ar y môr ac yn edrych ar ôl peiriannau ar y doc. Cafodd swydd i reoli peiriannau "Blondin" yn y chwarel. Ar ôl y rhyfel cafodd y gwaith, ynghyd â dyn arall, i wagio'r dŵr, efo pwmp disel ar rafft, allan o dwll chwarel Yr Allt Ddu a oedd wedi ei adael i foddi yn ystod y rhyfel. Priodi yng Nghaernarfon wnaeth Megan a William a byw ym Mhant Sardis am ychydig cyn treulio naw mis yn Ysgoldy cyn symud i Tŷ Capel Sardis am flynyddoedd. Yn naturiol mewn Tŷ Capel, gofalu am Weinidogion a ddeuai bryd hynny ar nos Sadyrnau i aros a'u bwydo ar y Sul oedd rhan o'i dyletswyddau wrth iddynt bregethu yn Sardis a Libanus yn Neiniolen. Deuai'r pregethwyr o bob rhan o Gymru a mwynhâi Megan eu cwmni. Symudodd wedyn i'w chartref genedigol ym Minffordd ar ôl i'w chwaer Alice symud i Tanybwllch. Yna symud o Ddinorwig i Fangor wnaeth Megan a'i phriod i fod yn ofalwyr ar safle Y Coleg Normal ar lan y Fenai. Ar ôl marwolaeth ei phriod ym Medi 1964, ac yntau ond yn 52 oed, a hynny ar ôl pum mlynedd yn y gwaith hwn, aeth Megan yn bwrsar cynorthwyol yn Neuadd Rathbone o fewn y Brifysgol. Byw mewn fflat yno ydoedd ac roedd wrth ei bodd ymysg y myfyrwyr ifanc.

Ar ôl ymddeol, yn ôl y daeth i Minffordd, sef cychwyn y daith iddi. Bu Megan yn hoff o ddarllen erioed ac yn hoff o deithio hefyd a bu yn ymweld â nifer fawr o wledydd Ewrop, ac enwodd Oberammergau a Rhufain fel yr hoff ymweliadau. Mae Eirwyn y mab a'i wraig Nancy, a Marsli y ferch a'i gŵr Geoff a'r wyrion Sion, Dafydd, Megan, Delyth, Andrew ac Edward a'r holl deulu yn bwysig iawn iddi a dymunwn oll yn dda iddi ar ei phen-blwydd arbennig.

Idris Thomas

MODURDY'R WYDDFA
Snowdon Garage
LLANBERIS
M.O.T
GWASANAETH
CYNNAL A CHADW
(01286) 870225

BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Triapiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044



LLWYDDIANT SEINDORF IEUENCTID DEINIOLLEN



Dydd Sul, y 14eg o Fehefin, bu Seindorf Ieuencid Deiniolen yn cystadlu mewn cystadleuaeth awyr agored i Fandiau Pres yn y Drenewydd. Roedd naw band yn cystadlu a chipiodd Seindorf Ieuencid Deiniolen, o dan arweiniad Osian Tomos, y wobwr am y band ieuencid gorau ar y diwrnod a hynny am yr ail flwyddyn yn olynol. Derbyniodd y Seindorf Ieuencid gamoliaeth uchel gan y beirniad, John Winterflood, am eu rhaglen sef yr ymdeithgan Death or Glory, yr emyn dôn Eventide ac i gloi, Going Home gan Alan Fernie. Roedd 35 o aelodau yn y band ac roedd pawb wedi mwynhau'r profiad yn fawr.

Hoffai Osian ddiolch yn fawr iawn i'r holl aelodau am eu gwaith caled cyn y gystadleuaeth, i bawb oedd wedi cynorthwyo i hyfforddi'r band a'r rhai

fu'n gyfrifol am y gwaith trefnu. Hoffai pwyllgor y band ddiolch yn ogystal i Gyngor Cymuned Llanddeiniolen am y rhodd garedig tuag at gostau'r bws. Roedd bron i 70 o deulu a ffrindiau wedi teithio ar y bws i gefnogi'r ieuencid.

Nesaf bydd y band ieuencid yn cychwyn ymarfer tuag at gyngerdd blyneddol y band ym mis Hydref ac yn paratoi at Bencampwriaeth Bandiau Pres Gogledd Cymru fydd yn cael ei chynnal fis Tachwedd yn Rhuthun.

Llongyfarchiadau mawr i'r band ar eu llwyddiant eto eleni. Os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn ymuno â'r band ieuencid neu'r band iau yn Neiniolen yna cysylltwch ag Osian neu Llio ar 07717055639.



Gŵyl Deiniolen

Cafwyd Gŵyl hynod lwyddiannus eto eleni gyda nifer o weithgareddau wedi eu trefnu trwy'r wythnos. Dymuna'r pwyllgor ddiolch o galon i'r holl noddwyr a chyfranwyr, yr holl wirfoddolwyr a fu'n cynorthwyo trwy'r wythnos a thrigolion y pentref a thu hwnt a gefnogodd yr holl weithgareddau yn ystod yr wythnos.

Mi fyddai rhestru pob digwyddiad yn llenwi'r Eco felly sonnir yma am yr uchafbwyntiau:

Cafwyd cinio/te pnawn yng nghwmni y digrifwr Tudur Owen a fu'n sôn am ei gysylltiad teuluol gyda'r pentref ag am ambell i dro trwstan yn ystod ei oes. Roedd ambell stori liwgar ond dim digon drwg i'w 'bllipio' fel ddaru S4C wneud iddo yn ddiweddar.

Cafwyd ras 10k hynod lwyddiannus unwaith eto gyda'r nifer yn cymryd rhan unwaith eto yn uchel a bu canmol gan y rhedwyr am drefnu ras mor heriol. Diolch arbennig i Gwynfor a Wendy James am eu cymorth yn trefnu.

Roedd noson y Mabolgampau yn hynod lwyddiannus gyda degau o blant ac oedolion yn mwynhau'r gweithgareddau, roedd nifer fawr yn wlyb iawn erbyn y diwedd oherwydd brwdfrydedd ambell un gyda'r gwn dŵr.

Ac yna cafwyd diwrnod y Carnifal ei hun. Dechreuodd y diwrnod yn ddigon gwlyb ond fe gododd yr haul erbyn y pnawn ac fe gafwyd pnawn i'w gofio. Roeddem yn lwcus iawn i allu cael y brodyr David ac Andrew Brailsford i agor y gweithgareddau yn swyddogol ac yna yn cael ei arwain wedyn gan Malcolm Allen. Roedd cael enwogion o'r safon yma ar yr un llwyfan bach ar ganol Cae Bwthyn yn ddigwyddiad gwerth ei weld. Diolch iddynt am eu hamser. Diolch hefyd i'r beirniaid a gafodd y gwaith caled o ddewis enillwyr yn ystod y prynhawn, sef Carys, Adrian a Iola.

Trwy gydol yr wythnos roedd y Frenhines Kelen yn coroni'r holl weithgareddau gyda'i chwrt: Angharad, Elliw, Harri a Callum.

Dyma rai o luniau i roi blas o'r diwrnod.



Mae nifer o'r pentref wedi datgan siom yn dilyn sylwadau a wnaed yng ngholofnau'r Eco mis dwythfa. Yn amlwg roedd camgymeriad wedi ei wneud pan na drefnwyd fod un o drigolion y pentref yn cynorthwyo gyda dosbarthu'r Eco, sylwch dosbarthu dim plygu fel yr honnwyd. Estynnir ymddiheuriadau am y diffyg yma ond fel mae nifer wedi datgan nid yn gyhoeddus o dan enw pentref arall

oedd y lle i ddatgan hyn. Cydweithio a gwirfoddoli yw cryfder yr Eco erioed o'i gychwyn a dim ond trwy gynnal hyn y bydd yn parhau i ffynnu, dim trwy feirniadaeth gyhoeddus.

Diolch Dymuna Sion Elidir Thomas a'i deulu ddiolch o galon am yr holl ddymuniadau da gan gymdogion a ffrindiau yn dilyn salwch diweddar a thriniaeth yn Ysbyty Gwynedd ag Ysbyty Alder Hay.

Ysgol Cwm y Glo



Cael profiad o gerdded gyda'r cwn tywys

Mae pawb yn drist yma oherwydd, ar ddiwedd y tymor, bydd Miss Mared yn ein gadael. Mae wedi bod yn gweithio yma fel cymhorthydd dosbarth am ddwy flynedd. Cyn hynna roedd yn hyfforddi yma a mae Mrs Oliver yn deud ei bod yn ei chofio yn ddisgybl yn yr ysgol. Diolch am fod yn glên efo ni bob tro Miss Mared a diolch am ein dysgu i ddawnsio ar gyfer yr Eisteddfod. Mae pawb yn dymuno yn dda i blwyddyn 6 sydd yn mynd i Ysgol Brynrefail yn mis Medi. Rydym yn paratoi ar gyfer ein gwasanaeth i ddweud ffarwel ar ddiwedd y tymor.

Yn ystod yr wythnosau olaf rydym wedi cael llawer o ymwelwyr i'r ysgol. Daeth y Gwasanaeth Tân i ofyn ydy pawb yn gwybod eu cyfeiriad a'u cod post rhag ofn bydd rhaid iddynt alw am y injan dân un dydd. Roedd plant bach dosbarth Peris wedi cynhyrfu yn cael gwisgo dillad diffoddwr tân.

Mae P.C. Dylan wedi bod yn ein dysgu pwy i gysylltu efo mewn argyfwng, ac i drafod beth ydy argyfwng.

Daeth Marion, Buddug a Debs efo'u cŵn tywys i'r ysgol eto. Roedd pawb wrth eu bodd yn cael cyfle i gerdded efo'r cŵn ar y buarth. Mae'r cŵn mor ufudd. Pob tro rydym yn codi arian yn yr ysgol rydym yn cyfrannu i'r elusen gan ein bod wedi mabwysiadu



Trafod gyda'r Llywodraethwyr

tri o gŵn bach sy'n cael eu hyfforddi i fod yn gŵn tywys.

Rydym yn edrych ymlaen at wasanaethau Ffrindiau Agor y Llyfr ar fore dydd Mercher. Rydym wedi cael llawer o straeon o'r Beibl ganddynt. Mae nhw'n hwyl.

Roedd Mrs. Oliver eisiau gwybod beth i'w wneud i wella'r ysgol, felly ysgrifennodd Dosbarth Marchlyn lythyrau iddi efo eu syniadau. O ganlyniad daeth dau o'r Llywodraethwyr i'r ysgol i drafod efo ni. Mae llawer o'r pethau wedi cael eu gwneud – ond nid yw'n edrych yn debyg ein bod am gael gwair ar y iard!

Mae aelodau'r Urdd wedi bod yn cystadlu yn y Mabolgampau yn Nhreborth. Rydym yn gobeithio y bydd y tywydd yn braf er mwyn i bawb gael cystadlu yn Mabolgampau'r Ysgol cyn diwedd y tymor.

Mae y rhieni yn trefnu Ffair Haf cyn diwedd y tymor ac mae croeso i bawb ddod draw i'r ysgol.

Gobeithio bydd pawb yn cael gwyliau da.

Aled, Jonathan, May, Megan ac Erin fydd yn gyfrifol am ein newyddion yn Medi – 'da ni'n mynd am Ysgol Brynrefail! Diolch Ysgol Cwm y Glo – rydym wedi mwynhau!

Dion ac Ethan.

Marwolaeth Syfrdanwyd yr ardal trwy ymadawiad Gareth Jones yn frawychus o sydyn yn ei gartref yng Nghaernarfon ar Fai 2il yn 55 mlwydd oed. Roedd Gareth yn fab i Mrs Dilys Jones a'r diweddar Mr Dafydd Jones ac yn frawd i Arwel. Magwyd ef yn 4 Rhes Bryn Hyfryd, Bwlch, a mynychodd Ysgol Cwm y Glo, Ysgol Brynrefail a Choleg Technegol Bangor, gan ddechrau gweithio yn y Gwasanaeth Sifil i lawr yn y de cyn dod yn ôl i'r gogledd i Landudno ac yna i Gaernarfon lle bu'n gweithio tan iddo ymddeol fis Ebrill eleni. Diddordebau Gareth oedd cerdded, beicio a phêl-droed. Roedd yn gefnogwr brwd i dim pêl-droed Cymru a theithiodd i nifer fawr o wledydd i'w cefnogi. Roedd ei boblogrwydd yn amlwg yn y dorf enfawr a ddaeth i'w angladd dydd Sadwrn, 16 Mai, yn Eglwys Santes Helen, Penisarwaun a rhoddwyd ef i orffwys ym mynwent yr

Eglwys. Gwasanaethwyd gan y parch Gwynfor Williams a'r organydd oedd Dr William Munro. Rhoddwyd teyrngedau iddo gan Michael Owen, ffrind oes iddo a gan y Parch Gwynfor Williams. Trefnwyd yr angladd gan Dylan a Meinir Griffith, Penisarwaun.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i fam, Mrs Dilys Jones, ei frawd Arwel a'r teulu oll yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

Diolch Dymuna Mrs Dilys Jones ac Arwel, 3 Maes Gerddi, a'r teulu ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ac am ob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth ac am y rhoddion a dderbyniwyd er cof tuag at NSPCC, a oedd mor agos at galon Gaeth. Diolch yn fawr.

Yn yr Ysbyty Anfonwn ein cofion gan ddymuno gwellhad buan i Mrs Dilys Jones, 3 Maes Gerddi a Mrs Rhian Jones, Bron Eryri, sydd yn Ysbyty Gwynedd.

Genedigaeth Llongyfarchiadau

i Poppy ac Adrian, 6 Rhes Bryn Hyfryd, Bwlch, ar enedigaeth merch fach, Winifred Mai.

Dymuna Llifon a Bethan Jones, 1 Bryn Difyr, ddiolch am y cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur genedigaeth Tomos Cledwyn. Diolch yn fawr iawn.

Undeb y Mamau Cyfarfu'r aelodau yn Ffestri Eglwys St Mair bnawn Mawrth, 16 Mehefin. Croesawodd yr arweinydd pawb i'r cyfarfod a chafwyd munud tawel i gofio am fam yr ysgrifenyddes (Auriel Howel) a fu farw yn ddiweddar. Cafwyd gwasanaeth byr dan ofal Mrs Joyce Rawson ac adroddwyd gweddi Undeb y Mamau.

Darllenwyd cofnodion o'r cyfarfod a gafwyd fis Mai gan Auriel a thrafodwyd rhai materion

Gan fod y cyfarfod yr un olaf o'r tymor yr oedd te arbennig wedi ei drefnu gan yr aelodau a mwynhawyd gweddill y prynhawn yn

sgwrsio a threfnu'r Sêl Enfys. Rhoddwyd y raffl gan Marjorie ac fe'i henillwyd gan Mrs Iona Morgan. Diolchwyd i bawb am gyfrannu at y te. Bydd y cyfarfod nesaf ar 15 Medi. Terfynwyd trwy adrodd y Gras yn Gymraeg a Saesneg.

WAVELL'S

Bryn Ac Angela Williams

**London House
LLANRUG**

**PEN
CIGYDDION
Y FRO**

YR WYN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
**MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!!**

(01286) 673574



Rhodd o gadeiriau

Bu Clwb Peldroed Caernarfon yn hael iawn a Chlwb Llanrug drwy roi'r cadeiriau stand yma iddynt. Roedd yna dipyn o frys i gael y cadeiriau gan eu bod ar gynnig i'r cyntaf i'w nol. Diolch yn fawr iawn i'r Caneris ac hefyd i Dylan Griffiths, Tros Waen, Penisarwaen am ei haelioni'n rhoi benthyg y treilar i'r clwb. Heb y treilar fe fyddai clwb Llanrug wedi methu allan ar gael y cadeiriau. Dim ond un broblem fach sydd, does gan y clwb yr un ddimai goch y delyn i dalu am eu gosod yn y cae! Felly, os oes yna rhywun am eu noddi mawr fydd y croeso.

Dymuniadau Da Dymunwn bob llwyddiant i blant a phobl ifanc y pentre sy'n disgwyl canlyniadau arholiadau ac yn symud ymlaen i golegau a swyddi newydd.

Gwersi Piano a/neu Gitâr I ddechrau ym mis Medi. Os oes gennych ddiddordeb cysylltwch ag Ifan Dafydd ar 01286 674598 neu 07786913687.

Profedigaethau Dymunwn anfon ein cydymdeimlad diffuant at y canlynol yn eu profedigaethau diweddar.

Bu farw y Parchedig Gwilym Parry yn 94 mlwydd oed. Bu iddo gartrefu ym Mhlas Garnedd, Llanberis, am gyfnod

a deallwn iddo gael gofal hynod yno. Cofiw'n at ei ddwy ferch, Rhiannon a Davyth, Brwynog, Ffordd yr Orsaf ac Olwen.

Bu farw Howard Griffin a Ken Tucker, y ddau o Stad Glanffynnon yn ddiweddar a chydymdeimlwn yn arw gyda'r ddau deulu.

Hefyd, wedi gwaeledd hir, bu farw Cecil Morris (Ces Môr) yn wreiddiol o Gwm y glo. Efaill i Enid Williams, 15 Rhos Rug. Bydd colled fawr i'r teulu a chydymdeimlwn yn fawr â chi i gyd.

Yn ddiweddar bu farw Mrs Sheila Roberts, Waunfawr, mam annwyl Lynn a Glyn, Stad Talybont, nain gariadus i Gwen

a Glyn a hen nain i'r plantos bach. Colled fawr i chwithau. Cydymdeimlwn yn fawr â Mrs Eileen Williams, 10 Afon Rhos, yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer, sef Mrs Enid Pritchard, Porthaethwy. Cofiw'n at ei merch, Einir a'i mab yng nghyfraith, Gwyn, a'r wŷr Emyr. (Roedd y teulu yn dod o Ddeiniolen yn wreiddiol.)

Ysgol Feithrin Diolch i bawb a fu'n golchi ceir yn ddiweddar er mwyn casglu arian at yr Ysgol Feithrin. Roedd ceir yr ardal i gyd yn sgleinio yn yr haul ar wahân i ambell olwyn styfnig! Casglwyd swm anrhydeddus o £287 ar y diwrnod. Diolch yn arbennig hefyd i gwmni Arvonnia am adael i ni ddefnyddio eu cyfleusterau ar y diwrnod ac i Eleri am y bwyd a'r diod.

Dyweddio Mae'n bleser gan Elsie Owen, Hafod y Rhos, gyhoeddi fod ei mab, Meilyr, wedi dyweddio â Ceridwen Fox o Rosgadfan.

Llongyfarchiadau mawr oddi wrth y ddau deulu.

Llongyfarchiadau Mae Meilyr Owen, Hafod y Rhos, wedi graddio achaeleidyddysgrif HNC mewn Peirianyddiaeth Mecanyddol. Ardderchog iawn. Llongyfarchiadau oddi wrth y teulu i gyd.

Diolchiadau Dymuna Eileen Williams, 10 Afon Rhos, ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd

tuag ati yn dilyn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer, Enid.

Diolch yn Fawr Mae Elusen Canser Marie Curie bellach wedi derbyn £2,430 trwy law Haf Thomas yn dilyn ei hymgyrch ddiweddaraf. Dymuna Haf ddiolch o waelod calon am gefnogaeth Bro'r Eco i allu cyrraedd y swm yma. Diolch i'r rhai fu'n prynu cardiau ac yn casglu'r holl 5 ceiniogau a hefyd y gweithgareddau unigol eraill a fu'n gymaint o gymorth i'r ymgyrch.

Diolch am y caredigrwydd a'r gefnogaeth.

Plaid Cymru Enillwyr Clwb Cant Mis Mehefin: 1. Gwawr Morris, Llanuwchllyn; 2. Gwyn Hefin Jones, Brynrefail.

Diolchiadau Fe ddymuna Mrs Enid Williams, 15 Rhos Rug, ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniodd mewn galwadau, cardiau a rhoddion yn dilyn ei phrofedigaeth o golli ei brawd annwyl, Les Morris, yn Nhalysarn. Diolch yn fawr.

Llongyfarchiadau i Gareth a Jennifer Thomas, 48 Glanffynnon ar ddod yn daid a nain unwaith eto. Ganwyd Seren Celyn, merch fach i Bryn a Ceri sy'n byw ym Mhorthmadog. Dymuniadau gorau i'r teulu bach a hefyd llongyfarchiadau pellach i Bryn ar ennill Gradd Meistr yn ei waith fel paramedic.

Gwasanaeth Gwres a Plymio 
Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

TM JONES
SEFYDLWYD DROS 20 MLYNEDD
SYMUD A CHADW
CLIRIO TAI A GAREJ (Unrhyw Bellter)
CLIRIO AR OL PROFEDIGAETH
Yswiriant Llawn Domestig a Masnachol
01248 430126 • 07786176866
thomasmeredydd@btinternet.com

CEIR CYMRU 
Diolch am Gefnogaeth ein Cwsmeriaid yn Eryri dros **25** Mlynedd
gareth.w.jones@hotmail.co.uk
www.ceircymru.com
Bethel (B4366) Caernarfon Gwynedd LL55 1UN
01248-671770/670451


Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk
Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• **PRIODASAU** •
Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk
The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia

Parhad LLANRUG

Ymweliad a Choleg y Bala.



Ar benwythnos y 15fed o Fai aeth 11 o blant o Ysgol Sul Capel y Rhos, Llanrug, i aros am benwythnos yng Ngholeg y Bala gyda chriw o blant o Ysgol Sul Capel Coch, Llanberis. Cawsom lawer o hwyl yn cyflawni gweithgareddau oedd wedi eu seilio ar thema arch-arwyr.

Buom yn y pwll nofio, a chawsom noson ffilm ac i goroni'r cyfan cwis. Yn bersonol hwn oedd fy uchafbwynt i. Yn ogystal â hyn cawsom ddiwrnodau llawn gemau a chrefftau. Aeth pawb adref efo gwên ar eu wynebau ond llygaid trwm, blinedig!

Gwernan Brooks

Capel y Rhos - Oedfaon Gorffennaf:

5: Y Gweinidog, y Parch Marcus W. Robinson
Gweinyddir y Cymun

12: Parch Olwen Williams

19: Y Gweinidog

26: Parch Eifion W. Williams

Oedfaon Awst:

2: Parch Trefor Jones

9: Parch R.O. Jones

16: Parch Gwynfor Williams

23: Parch Harri Parri

30: Cyfarfod Gweddi

Merched y Wawr

Nos Fawrth, Mehefin 9fed, aeth llond bws o aelodau ar eu gwibdaith flynyddol – y tro hwn i Halen Môn, Brynsiencyn ac estynnwyd croeso cynnes iawn i bawb gan staff rhadlon y cwmni. Sefydlwyd y cwmni yn 1998, meddai'r Cydgyfarwyddwr, Alison Lea Wilson, ar y fideo. 'Dechreuad Halen Môn oedd llond sosban o ddŵr môr ar yr Aga yng nghegin y cartref. Fel y berwai'r dŵr a'r crisial yn ffurfio, fe wyddid ei fod yn gynnyrch anghyffredin.' Dechreuwyd cyflenwi Halen Môn i Swains, cigydd lleol ym Mhorthaethwy bymtheng mlynedd yn ôl. O'r dechrau cyntaf y nod oedd bod yn fusnes Cymreig o safon uchel, ac mae'r ymrwymiad hwnnw wedi talu ar ei ganfed. Y mae'r holl broses o gynhyrchu'r halen yn cael ei reoli drwy hyfforddiant llym, gwyddor glendid a mesurau caeth o iechyd a diogelwch. Yn ddiweddar fe'i dewiswyd yn un o Tesco'r Hero Products ar gyfer eu cadwyn Finest, ac mae'r 'oak smoked water' yn gyfrwng i sicrhau archeb gan M & S ar gyfer eu prydau parod. Erbyn heddiw fe werthfawrogir y cynnyrch gan arbenigwyr ym myd gloddesta led-led y byd a dywedir fod yr Arlywydd Obama ei hun yn mwynhau ychydig o Halen Môn ar ei 'butter caramels'. Yn ogystal â chyflenwi'r siopau mawr yn y DU, gellir darganfod y cynnyrch mewn dros 100 o fwytai gorau'r wlad a thrwy'r byd. Allforir Halen Môn i dros 15 o wledydd. Dim yn ddrwg i fusnes teuluol o ogledd Cymru fe gytunwch! Cafodd pawb gyfle i flasur gwahanol halen a'r cyffug hyfryd a chael amser i fynd o gwmpas y siop. Yna yn ôl â ni dros y Bont i Dafarn

Gardd Fôn, Y Felinheli i gael pryd amheuthun a chyfle i gael sgwrs a chymdeithasu.

Dymunir diolch i Nan am y trefniadau trylwyr gan sicrhau noson hynod o gyfeillgar a diddorol. Estynnir ein cydymdeimlad llwyr ag Enid – wedi colli ei efaill a chefnider i'r Llywydd, Menna. Llongyferchir Meirwen ac Ann Lloyd ar eu pen-blwyddi arbennig. Llongyfarchiadau hefyd i Ann a Dafydd, Penisarwaun, ar ddod yn nain a thaid balch i Lois Rhodd, merch fach i Eurgain ac Ioan, Rhiwen, Pontypridd a rhodd o chwaer i Cian Harri.

Cynhelir Penwythnos Preswyl Merched y Wawr 2015 ar Fedi 4-6 yn Llanbedr Pont Steffan. Os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn teithio ar fws o'r gogledd cysylltwch â Freda Jones Williams ar freda.williams@hotmail.co.uk neu 07870402482 neu 016780412 erbyn Awst 10fed os gwelwch yn dda. Diolchodd Menna i bawb am y cydweithrediad drwy'r flwyddyn.

Nos Wener, Mehefin 12, yn y Sefydliad Coffa cynhaliwyd noson beirniadu Cynnyrch Celfa Chrefft Rhanbarth Arfon. Dymunir diolch i Olwen, Myfanwy, Megan, Eirian, Ann Ifans, Ann Lloyd a Jean am ofalu am y banded. Yn ystod y beirniadu gan Jill, cafwyd arddangosfa o osod blodau can yr amryddawn Susan Land-Peters o Gaernarfon. Bu'r gosodiadau yn wledd i'r llygaid a'r cyflwyno yn hynod o ffraeth, llawn cynghorion gwerthfawr ar sut i osod blodau yn gywain. Bu cyfle wedyn i brynu'r gosodiadau a'r basgedi crog. Diolchwyd i Susan am orig hynod o ddifryd gan Margaret a Linda.

Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd



Adeilad y trosglwyddydd yng Ngorsaf Radio Marconi, ger Waunfawr.

Mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd – prosiect dan arweiniad Jane Kenney, yn hel gwybodaeth am safleoedd a ddefnyddiwyd yn ystod y Rhyfel Mawr. Ydych chi'n gwybod am safleoedd yng ngogledd-orllewin Cymru sydd yn gysylltiedig â'r Rhyfel Byd Cyntaf?

Mae'r Ymddiriedolaeth Archeolegol Cymreig, gyda chymorth grant gan Cadw, yn ffocysu ar y Rhyfel Byd Cyntaf er mwyn

cydredeg â chanmlwyddiant y rhyfel.

Nod y prosiect yw ymestyn ein dealltwriaeth o etifeddiaeth y Rhyfel Byd Cyntaf, mireinio Cofnod yr Amgylchedd Hanesyddol ac amddiffyn y safleoedd.

Ein thema eleni yw Ymchwil a Datblygu a Diwydiant. Rydym yn awyddus i dderbyn gwybodaeth am safleoedd ble cynhyrchwyd arfau, gwisgoedd neu ddeunyddiau rhyfel eraill, neu ble datblygwyd technoleg newydd.

I wybod rhagor ewch i www.heneb.co.uk/ww1/index.html

Os oes gan unrhyw un o ddarllenwyr Eco'r Wyddfa unrhyw wybodaeth am Orsaf Marconi, Cefn Du, yn ystod y Rhyfel Mawr yn benodol, cysylltwch â Jane Kenney drwy ebost: WWI@heneb.co.uk

neu ffôn: 01248 366959

WWI, Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd, Craig Beuno, Ffordd y Garth, Bangor LL57 2RT

Galw heibio: digwyddiad Drysau Agored yn Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd ar Fedi 26.

Diolch

Parhad LLANRUG



Gwau i Nepal

Mae criw o ferched wedi bod yn troi allan ar brynhawniau Mercher i wau capiau a menyg i'w hanfon i'r rhai sy'n dioddef o effeithiau'r ddaeargryn ddiweddar yn Nepal.



Gwobr i Faes Carafannau

Yn hollol ddarwybod iddynt cafodd maes Carafannau a Champio Llys Derwen, Llanrug eu gwobrwyo gan Trip Adviser. Roedd y maes wedi cael adolygiadau 5 seren gan gymaint o bobl a dim sylwadau negyddol na marciau gwael. Llongyfarchiadau mawr i Emrys a Bethan y perchnogion. Cewch weld mwy am y camp o fynd i'r wefan www.llysderwen.co.uk.

Garddwest yr Eglwys.



Er gwaethaf y tywydd gwael a gafwyd yn ystod y mis, bu trefnwyr garddwest Eglwys Sant Mihangel yn ffodus o brynhawn braf a heulog, a chasglwyd elw sylweddol tuag at gronfa'r Eglwys. Gyda diolch i bawb am eu haelioni ar y diwrnod.

Cymorth Cristnogol Mae'r arian i gyd wedi ei gasglu bellach ac roedd cyfanswm Llanrug eleni yn £1,374. Diolch eto i bawb fu'n gwneud y gwaith.

Priodas Ar Fehefin 13eg priodwyd Amy Lyn Lambert, Brynrefail â Gareth Roberts, Llanrug, gyda ewythr y priodfab, y Parch Elfyn Richards yn gweinyddu. Mae'r ddau wedi ymgartrefu yn Rhos Bryngwyn, Tan y Coed. Pob dymuniad da i chwi i'r dyfodol.



E. W. Pritchard

Trefnwyr Angladdau

CENTRAL GARAGE
LLANBERIS
FFON- (01286) 870202



ApelNepal

Bu plant ac athrawon yr Ysgol Sul yn paratoi paned a chacen a gwerthwyd nwyddau ar ôl yr oedfa fore Sul, Mehefin 21ain. Gwnaed elw o £381.50 ac mae'r arian yn mynd i Apêl Nepal i helpu'r trueiniaid yn dilyn y daeargryn. Da iawn blant a diolch i bawb a gefnogodd y bore coffi.



Oriel CWM

CWM Y GLO

Gwasanaeth fframio Lluniau o bob math ar gael ar y safle

PRISIAU RHESYMOL
Arddangosfa o luniau Gwreiddiol gan artistiaid lleol

Richard S. Humphreys

Ffon/ Ffacs-
(01286) 870882



POSH PAWS

TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10

DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07935324193
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com






Car Service

www.a-v-w.co.uk

01286 673559

CIBYN IND EST. CAERNARFON LL55 2BD
SAFON UCHEL Y GALLWCH EI DRYSTIO
ARBENIGWYR AR GEIR SWEDEN A'R ALMAEN
CEIR, CAMPERS A FANIAU

AVW BOSCH Car Service

ECO'r Wyddfa

O'r Cyngorau

Cyngor Cymuned Llanrug
a Chwm y Glo

• Parcio ger yr Hen Ysgol ar Ffordd Bryngwyn
Adroddwyd fod bysiau wedi bod yn cario plant i'r hen ysgol ar gyfer gweithgareddau ond yn ddiweddar fod nifer o geir i weld yn dod â phlant yno ac yn creu sefyllfa beryglus. Penderfynnwyd i gysylltu â'r Ganolfan yn y lle cyntaf i holi beth yw'r rheswm am hyn ac os oes na newid wedi bod yn eu polisi.

• Ceisiadau Cynllunio
• 2 S?n yr Efail Llanrug – Diwygio cymal o fewn cytundeb 106. Penderfynnwyd cysylltu â Chyngor Gwynedd i holi pam y rhoddir cytundeb 106 ac am ba resymau gellir ei dynnu i ffwydd.

• Afon Rhos, Llanrug - Estyniad un llawr i ochr yr eiddo presennol i greu anecs

'Doedd dim gwrthwynebiad

• C15/0438/23/LL – Dragon Motors Cwm y Glo - Gwaith peirianyddol ar ffurf tynnu wyneb craig er mwyn creu gofod ychwanegol i gadw cerbydau

Adroddwyd fod gwybodaeth leol wedi dod i law yn cadarnhau fod Cudyll Coch wedi bod yn nythu ar y graig ers blyneddau bellach, ond yn dilyn y s?n wrth dyllu i fewn i'r graig, ni welwyd y Cudyll eleni. Mynegwyd pryder nad oedd y wybodaeth leol yma yn y datganiad ar y ffurflen gais Cynllunio. Penderfynnwyd dwyn sylw'r Adran Gynllunio at hyn a holi pa waith i wirio'r hyn a ddatgelwyd ar y ffurflen gais a wnaethpwyd. Hefyd i holi Cyfoeth Naturiol Cymru am effaith hyn, ynghyd ac arbenigwr adar lleol.

• Sylwadau ar fersiwn ddrafft o'r Rheolau Sefydlog
Adroddwyd fod panel wedi pori drwy fodel a Rheolau Sefydlog ac wedi awgrymu rhai newidiadau i'r Cyngor. Adroddwyd y bydd angen i'r rhain fynd ar ein gwefan. Penderfynnwyd mabwysiadu y Rheolau Sefydlog fel y gallwn eu rhoi ar ein gwefan ond gyda rhai addasiadau.

• Cae Chwarae Pwll Moelyn Llanrug

Adroddwyd ein bod wedi cael dau adroddiad a'r sut i symud ymlaen a thrin y coed ar gae chwarae Pwll Moelyn.

Penderfynnwyd symud ymlaen ac awgrymiadau un o'r ymgymeryddwyr ac i'r Clerc gysylltu ac ef i'w hysbysu o hyn. Adroddwyd fod yr ymgymeryddwr am gysylltu â Chyngor Gwynedd i sicrhau caniatâd rhag ofn fod unrhyw waharddiad ar wneud y gwaith.

• Adroddiadau Pentrefi

Adroddwyd fod tyllau ar y ffordd drwy Gwm y Glo sydd yn ei gwneud yn beryglus. Adroddwyd hefyd fod Ffordd yr Orsaf, Llanrug, angen ei hail wynebu. Siomedig oedd clywed fod Cyngor Gwynedd yn cydnabod fod angen gwneud y gwaith ond yn dilyn toriadau ar eu cyllideb nid ydynt yn rhagweld bydd y gwaith yn cael ei wneud yn ystod y flwyddyn ariannol yma.

• Glanhau Pentrefi

Adroddwyd fod gwobrau wedi eu cyflwyno i enillwyr y gystadleuaeth gwneud posteri i'w dosbarthu o gwmpas y pentref. Adroddwyd ymhellach fod nifer o'r posteri wedi ei lamneiddio a bod angen penderfynu ble i'w lleoli.

Adroddwyd fod plant Cwm y Glo yn mynd o amgylch y pentref i gasglu sbwriel gyda Menter Fachwen a bod y criw sydd wedi ei sefydlu yn Llanrug hefyd yn mynd o gwmpas y pentref a bod cyhoeddusrwydd da wedi bod yn y papurau lleol. Ychwanegwyd fod croeso i unrhyw un wirfoddoli eu gwasanaeth i ymuno â'r criw. Adroddwyd ymhellach fod plant Ysgol Brynrefail hefyd wedi bod yn gwneud gwaith tacluso'r pentref.

• Y Fynwent

Derbyniwyd cwyn fod ceir wedi'u gweld yn y Maes Parcio ar un achlysur yn hwyr ond ymddengys mai digwyddiad unigryw oedd hyn.

Adroddwyd ei bod yn dod yn amser cysegru tir ychwanegol yn y fynwent.

Penderfynnwyd gofyn i beintiwyr lleol beintio'r giât ac i saer ymgymryd â'r gwaith o drwsio sedd y Cyngor.

• Llenwi Sedd Wag ar y Cyngor

Penderfynnwyd gwahodd y ddau ymgeisydd i gyfarfod â'r Cyngor ar nos Fawrth, 2 o Fehefin 2015.

Coleg Menai

Grŵp Llandrillo Menai

Myfyrwyr peirianeg mecanyddol ar y trac cywir



(O'r chwith): Iolo Williams, William Filby, Robert Tiesteel, Rob Thomas (Rheilffordd Llyn Llanberis), Morgan Hughes, Alex Jones.

Mae grŵp o fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau Peirianeg Fecanyddol gyda Grŵp Llandrillo Menai, Coleg Menai, yn dathlu ar ôl dod i'r brig mewn cystadleuaeth beirianeg i fyfyrwyr ysgol a choleg.

Cyflwynwyd Gwobr Sefydliad Peirianwyr Mecanyddol i Robert Tiesteel, William Filby, Alex Jones a Morgan Hughes am eu gwaith ar Reilffordd Llyn Padarn gan Gynllun Addysg Beirianeg Cymru.

Cynlluniodd y myfyrwyr blwyddyn gyntaf System Brecio Cerbyd ar gyfer atyniad newydd ar y rheilffordd. Bwriad yr atyniad hwnnw fydd dangos chwarelwyr yn cyflawni tasg a dangos i gyfranogwyr faint o egni a ddefnyddiwyd wrth gyflawni'r dasg honno.

Mae'r system brecio wedi cael ei chynllunio i gael ei gosod ar gerbyd y bydd ymwelwyr yn ei wthio ar hyd trac pwrpasol. Creodd y myfyrwyr gerbyd oedd yn mesur egni maint llai oedd ar gyfer y gystadleuaeth.

Robert Tiesteel oedd arweinydd y prosiect a dywedodd, "Roedd hon yn brosiect anodd iawn oherwydd roedd angen cofio nifer o bethau, a'r un mwyaf pwysig oedd diogelwch yr ymwelwyr wrth iddynt wthio'r cerbyd.

"Roedd rhaid dod o hyd i ffordd o atal y cerbyd yn araf ac ar y cynnig cyntaf, ac oherwydd hyn gwnaethon ni arbrofi gyda nifer o ffyrdd gwahanol i gyflawni'r brieff a chadw at ofynion iechyd a diogelwch.

"Roedd yn brosiect gwych i weithio arno ac fe gawsom ni gefnogaeth arbennig gan Mr Thomas o Reilffordd Llyn Padarn a'n tiwtor Iolo Williams."

Mae Grŵp Llandrillo Menai (y grŵp colegol sy'n cynnwys Coleg Llandrillo, Coleg Menai a Choleg Meirion-Dwyfor) yn cynnig amrywiaeth o gymwysterau, gan gynnwys graddau, mewn ystod eang o bynciau.

Os hoffech ragor o wybodaeth am unrhyw un o'n cyrsiau, ewch i'r adran ar gyrsiau ar ein gwefan ar www.gllm.ac.uk/cyrsiau neu ffoniwch ein llinellau cyngor ar gyrsiau ar 01492 542338 ar gyfer Coleg Llandrillo, 01758 701385 ar gyfer Coleg Meirion-Dwyfor, a 01248 383333 ar gyfer Coleg Menai.

- Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Adran teithiau grwp.
- Tocynnau rhodd.
- Llyfryn Gwyliau 2014 ar gael nawr.

01286-675175 | www.arvoniaco.uk

Marwolaeth - Bu farw GWILYM ALED WILLIAMS priod y ddiweddar Joan, gynt o FAESTEG ar Fai 18fed yn dawel yng nghartref Dyffryn Ffrwd, Nantgarw, Caerdydd, yn 98 mlwydd oed.

Cynhaliwyd y gwasanaeth ffarwelio yn amlosgfa Thornhill Caerdydd ar yr 2il o Fehefin o dan ofal Y Parchedig Michael Witcombe.

Wedi ei eni a'i fagu yn y Waunfawr, dyn ei filltir sgwâr oedd Aled - yn adnabod ei ardal yn dda am iddo yrru bysus Whiteways am flynyddoedd. Aled Whiteways fyddai o i bawb.

Mae ein cydymdeimlad gyda Gwyneth ei ferch a'i phriod Andrew a Charlotte ei wyres yng Nghaerdydd.

Clwb 300 Enillwyr mis Mai oedd £30: Ms Carmen Pierce, Snowdonia Park Hotel; £20: Mrs Ellen Roberts, Bodrida; £10: Mrs L.J. Williams, Plas Bodhyfryd.

Llongyfarchiadau i'r rhai o'r pentref sy'n aelodau o Gôr Ysgol Glanaethwy fu mor llwyddiannus yn y gystadleuaeth Britain's Got Talent.

Llongyfarchiadau hefyd i ddisgyblion Ysgol Uwchradd Brynrefail a oedd yn aelodau o'r Côr a'r gerddorfa a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr

Urdd. **Llongyfarchiadau** i Mared Ynyr, Dolwar Fach, ar ddodynail mewn cystadleuaeth lenyddiaeth Bl. 12 a 13.

Dymunwn yn Dda i'r rhai o'r pentref fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol, y rhai fydd yn arddangos eu hanifeiliaid yn y Sioe Amaethyddol yn Llanellwedd a'r Sioeau llai fydd yn cael eu cynnal yn ystod yr haf. Dymuniadau da hefyd i'r rhai fydd yn cystadlu yn y cystadlaethau chwaraeon.

Newid Aelwyd Dymunwn bob hapusrwydd i Arnold a Christina Roberts yn eu cartref newydd yn Hafan Elan, Llanrug.

Dathlu Pen-blwydd

Yn ystod mis Mehefin bu Jessica Rowlands, Arfon House, yn dathlu cyrraedd ei phen-blwydd yn ddeunaw oed. Llongyfarchiadau iddi a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Anfonwn ein cofion cynnes a'n dymuniadau da at Mrs Lowri Dunn, Trigfa, a fu'n dathlu ei phen-blwydd yn 94 mlwydd oed. Llongyfarchiadau i chi a gobeithio i chi fwynhau y diwrnod yng nghwmni eich teulu a ffrindiau.

Yn ystod mis Gorffennaf bydd Mrs Margaret Owen, Bryn Gwylan, yn cyrraedd ei 90 mlwydd oed. Llongyfarchiadau mawr i chithau a dymunwn bob hapusrwydd ichi ar y dathlu yng nghwmni teulu a ffrindiau. Bydd rhai o bobl ifanc y pentref yn cyrraedd eu 18 oed yn ystod mis Gorffennaf. Dymuniadau gorau a phen-blwydd hapus i Gwyndaf Dale, Stad Tŷ Hen; Mared Rhys, Eryri Wen, Stad Bod Hyfryd; Catrin Hughes, Manchester House; Ffion Mathews, Stad Llys y Waun a Gruffydd Rowlands, Tan y Marian.

Pob hwyl ichi ar y dathlu a phob dymuniad da i bob un ohonoch i'r dyfodol.

Croeso Adref o'r Ysbyty i Mrs Grace Dawson, Stad Tref Eilian, ac i Cara Jones, Stad Ael y Bryn. Hyderwn y byddwch yn cryfhau ac yn gwella yn ddyddiol.

Anfonwn ein cofion at y rhai o'r pentref sydd ddim yn dda yn eu cartref ac mewn cartrefi

preswyl ar hyn o bryd.

Cydymdeimlo

Yng Nghartref Nyrsio Dyffryn Ffrwd Manor, Nantgarw, yn 98 mlwydd oed bu farw Mr Aled Williams, Maes Teg. Cydymdeimlwn â'i ferch, Gwyneth, a'r teulu yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlwn â Mrs Enid Williams a'r teulu, Heli, yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd, Tegid, a oedd yn byw yn y Bontnewydd.

Anfonwn ein cydymdeimlad dwys at Bronwen, Trefor a Dafydd Beech a'u teuluoedd yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl iddynt. Bu'r teulu yn byw yn Ty'n y Wern yma yn y Waun.

Yn dawel yng nghartref Nyrsio Plas y Bryn, Bontnewydd, bu farw Mrs Bessie Coles, Bryn Rhian, Stad Pant y Waun. Cydymdeimlwn â Walter, Anne a William a'r teulu yn eu colled a'u hiraeth am fam a nain annwyl iddynt.

Diolch Dymuna Lynn, Tony a'u teuluoedd ac Eira Wyn ddiolch am y caredigrwydd a'r cydymdeimlad a dderbyniasant yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwyl, sef Sheila Roberts, Llwyn Celyn. Diolch i feddygon a staff Syrjyri Liverpool House, ac i'r rhai fu'n gofalu am Sheila, adref, yn Ysbyty Gwynedd ac yn Cerrig yr Afon, Felinheli. Hefyd diolch i'r Parch Marcus Robinson am y gwasanaeth ac i Gwynfor Jones (E.W. Pritchard), Llanberis, am drefniant gofalus.

Eglwys y Waun Casglwyd £765 tuag at Gymorth Cristnogol. Diolch i'r rhai fu'n casglu ac hefyd i bawb a gyfrannodd.

Eco Nesaf Daw'r rhifyn nesaf o'r Eco o'r wasg ddiwedd mis Awst. Mwynhewch y gwyliau. Os gwelwch yn dda dowch a'r newyddion am ddigwyddiadau diddorol ac achlysuron pwysig yn y pentref er mwyn inni gael eu rhoi yn yr Eco. Diolch.

Ras Hwyl 4K Waunfawr

Cynhelir Ras Hwyl Waunfawr dydd Sul, 19 Gorffennaf. Bydd yn cychwyn o'r Ganolfan am 1 o'r gloch y pnawn. Mae'r gofrestr ar agor yn awr, Cost £6 i oedolion a phlant. Gellir

cofrestru ar y diwrnod - o 12.00 o'r gloch ymlaen - yn y Ganolfan.

Mae'r elw tuag at Gwynedd Sands (Still Birth and Neonatal Death Society).

Am fwy o fanylion ebostiwhc marcclack@hotmail.com neu ffoniwch Karen (01286) 650633.

Prynhawn bach o hwyl i'r teulu, gyda castell neidio a phaentio wyneb i'r plant.

Clwb ar Ôl Ysgol Ar ddiwedd y tymor hwn bydd clwb ar ôl ysgol Waunfawr wedi bod ar agor am flwyddyn! Hoffem eich gwahodd chi i anfon eich plant i'r clwb o fis Medi ymlaen. Rydym yn darparu gofal proffesiynol i blant bob nos Lun i nos Wener rhwng 3pm a 6pm. Gallwch ddewis o sawl pecyn gofal:

Gofal rhwng 3-5pm am £7

Gofal rhwng 3-6pm am £10.50

Cewch ddewis anfon eich plant bob noson neu dim ond un noson yr wythnos. Mae gennym rai plant sy'n dod unwaith neu ddwywaith y mis! Gallwn ni ddarparu ar gyfer rhieni sy'n gweithio oriau shift. Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw llenwi ffurflen gofrestru.

Cysylltwch â ni drwy Facebook Clwb ar Ôl Ysgol Waunfawr neu drwy ffonio Rhian ar 650466.



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk

Gwasanaethau am fis Gorffennaf:

- 5: Parch Pryderi Llwyd Jones
- 12: Cyfarfod Gweddi
- 19: Parch Harri Parri
- 26: Mr John Roberts

Bydd croeso i ymuno â chynulleidfa Eglwys Seilo bob Sul ym mis Awst.

ECO'r Wyddfa

O'r Cyngorau Cyngor Llanddeiniolen

Yn bresennol: Y Cadeirydd Miss Phyllis Ellis a'r Cynghorwyr, Rhian Evans, Carolyn Roberts, Geraint Hughes, Elfed Williams, Idris Thomas, Hefin Williams, a Sion Jones.

Gweddi Offrymwyd y weddi agoriadol gan y Parch. Idris Thomas.

1. Ymddiheuriadau. Richard Ll. Jones, Geraint Elis, Jane Pierce Jones, Phyllip Jones, Rachel Williams, Aled Green a Gwilym Williams.

2. Datgan buddiant. Dim

3. Cofnodion cyfarfod Sed o Fai 2015.

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

4. Materion o'r cofnodion

Llywodraeth Cymru- Derbyniwyd Llythyr o Lywodraeth Cymru yn canmol yr amrywiaeth sydd gan yr ardal i'w gynig, a sut gallwn farchnata drwy Croeso Cymru.

Materion Ffyrdd – Derbyniwyd llythyr o Wynedd ynghylch y pant yn y ffordd ger Erw Fair a'r lôn i fyny am Marchlyn. Patchio sydd yn debygol o ddigwydd yno – y clerc i ffonio i esbonio y peryg ar y ffordd, ac i holi am ddatblygiad pont Injan, Brynrefail.

Hefyd cafwyd cadarnhad eu bod yn ystyried cynnwys Stryd Fawr, Rhiwlas, ar eu rhestr o leoliad sydd angen trwsio parhaol, ond ni fydd blaenoriaeth yn y tymor byr.

Lôn Perthi – Bydd swyddog yn ymweld â'r safle i asesu y gordyfiant yno.

Diolchiadau Nawdd ariannol Urdd – Derbyniwyd 4 llythyr yn diolch a gwerthfawrogi yn fawr y cymorth ariannol a gawsant i deithio i lawr i'r Eisteddfod. Er na ddaeth llwyddiant i'r plant cynradd eleni, roedd pawb wedi mwynhau y profiad o gystadlu yn Genedlaethol.

Pleser oedd clywed am lwyddiant ysgubol Ysgol Uwchradd Brynrefail yn yr Eisteddfod a Llongyfarchiadau Mawr i'r unigolion, y Parti Llefaru a'r Gerddorfa.

Gwefan – Esboniodd Sion Jones ei fod wedi cael cyfarfod pellach gyda Meic yn Delwedd, ac mae creu y wefan yn symud ymlaen, a bydd yn barod yn fuan Cae Chwarae Bethel – Dywedodd Sion Jones fod yr eitemau newydd wedi eu gosod, ac yn disgwyl biniau. Fel y gwyddom, roedd cais wedi dod gerbron am rodd ariannol i gael meinciau picnic i greu ardal newydd ar y cae chwarae. Bu cryn drafod ynghylch hyn. Dywedodd Sion bod Cyngor Gwynedd am gymeryd cyfrifoldeb o unrhyw falurio a chynnal a chadw y meinciau unwaith maent wedi eu gosod.

Penderfynwyd cyfrannu £400 tuag at y gost o'r meinciau, ac na fydd y Cyngor Cymuned yn gyfrifol o gynnal a chadw y meinciau.

Cytunwyd ein bod fel Cyngor dim ond yn ystyried ceisiadau o hyn ymlaen

ym mis Hydref yn flynyddol yn unig.

5. Gohebiaeth a materion eraill.

Taith Patagonia – Daeth cais i law gan Sion Emlyn Parry am rodd ariannol i'w gynorthwyo i fynd ar daith project gwirfoddol Urdd Gobaith Cymru i Batagonia. Penderfynwyd llythyr yn ôl yn dweud ein bod yn bwriadu cyfrannu tuag at y siwrne pan fydd ceisiadau eraill yn cael eu trafod fis Hydref, ac awgrymu ei fod efallai yn trefnu i ymweld ag ysgolion cynradd y gymuned sef, Rhiwlas, Bethel, Penisarwaun a Gwaun Gynfi Deiniolen, i roi cyflwyniad o'i hanes a'i brofiad yn Patagonia ar ôl dychwelyd adref.

Parthed 20 m.y.a. - Derbyniwyd llythyr yn amlinellu y bwriad o gyflwyno parth cyflymder 20 milltir yr awr wrth ysgol Peniarwaun a Gwaun Gynfi Deiniolen. Wedi trafodaeth penderfynwyd bod angen ymestyn y parthed i ddechrau Heol Fictoria ac i lawr fel ei fod yn cychwyn o rhif 1 Pentre Helen.

6. Cynllunio

Ceisiadau a dderbyniwyd:

Minffordd, Penisarwaun – Cynlluniau Diwygiedig.

Garth Fawr Farm, Nant y Garth – Newid to fflat gyda to pits

Fferm Tyddyn Forgam, Llanddeiniolen -Trosi adeilad allanol presennol i anecs cysylltiol i'r eiddo presennol ynghyd â throï'r anecs presennol ar y safle i fod yn rhan o'r t?, ynghyd â gwneud newidiadau i'r fynedfa gerbydol.

Birmingham House, Deiniolen – Newid defnydd siop a fflat yn 3 fflat.

3 Tan y Foel, Gallt y Foel – Estyniad llawr cyntaf ar gefn yr eiddo.

1 Dinorwic Houses, Dinorwig – Cais ar gyfer gwneud gwaith i goed wedi eu gwarchod gan orchymyn gwarchod Coed

Cefn y Braich, Rhiwlas – Cais ar gyfer codi estyniad deulawr ar flaen yr eiddo.

7. Llyfrgell Deiniolen

Derbyniwyd adroddiad Sian Shakespear yn dilyn y sesiwn taro heibio fel rhan o'r ymgynghoriad. Mae ymgais dda wedi ei wneud yn y sesiwn taro heibio, gyda phwyntiau da yn erbyn y 3 opsiwn oedd gerbron. Bydd Y Cyngorydd Elfed Williams yn cyflwyno deiseb arall i Ioan Thomas yn y man. Mae copi o adroddiad y sesiwn taro heibio i'w gael os dymunir drwy gysylltu â'r clerc. Mae'n bosib na chawn wybod penderfyniad Cyngor Gwynedd tan fis Tachwedd.

8. Tendir Llwybrau


Ni dderbyniwyd yr un cais ar gyfer tendr torri gwair a thyfiant ar y llwybrau. Penderfynwyd edrych ar yr opsiynau eraill a gobeithio y cawn contractwr i dorri yn yr wythnosau nesaf.

O gwmpas y Bwrdd

Brynrefail – Cais i gael parth Cyflymder i 20 m.y.a. ym Mrynrefail a Trem Eilian

Deiniolen– Angen gwybod gan Cyngor Gwynedd pa mor aml maent yn newid a gwagio biniau cae chwarae a biniau baw c?n. Hefyd mae angen biniau baw c?n yn Allt Ddu, Dinorwig.

Dywedwyd bod golwg ofnadwy yn Siop Marc. Cysylltu â Gwynedd i gadw golwg.



Ffenestri CADNANT Windows

iorwerthwilliams@fsmail.net

**DRYSAU □ FFENESTRI
A CONSERFATORIS UPVC
AMCANBRIS AMDDIM**


13 Eryri, Bethel, Caernarfon, LL55 1BX **01248670833 • 07801346652**



GAREJ CERIS JONES

Trwsio ceir a faniau Gwaith MOT Mecanic profiadol iawn Prisiau cystadleuol

Llanrug 01286 677362 07979620996



GWAITH COFFAOL LLANRUG

**Ffôn Gwaith
(01286) 672898**

**Cartref
(01286) 871833**

Symudol 07778 127394

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Dylan Griffith

Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch Mewn Steil- Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL



Ar ben arall i'r lein



Dyna ddiwrnod arbennig a gafwyd ar dir Gwesty Seiont Manor ar 27ed Mai, a bwriad y Gymdeithas oedd cynnig ychydig o hyfforddiant ar daflu pluen a saethu colomennod clai. Ni ddychmygwyd y buasai'r ymateb mor ysgubol, prin oedd hyfforddwyr y ddau ddisgyblaeth yn medru cadw i fyny â'r galw. Fe gofrestrwyd 81 yn gymysgedd o ieuenctid ac oedolion i ymfael â'r pysgota a 70 at y saethu. Amcanwyd fod tua 250 wedi ymweld â'r safle rhwng 10.00 y bore a 4.00 y prynhawn. Ond gobeithio'n wir y bydd rhai yn cario 'mlaen â'r diddordeb ddangoswyd ac ymuno â'r gymdeithas.

Does dim os bod lleoliad y gwesty a'r tir wedi cyfrannu at y llwyddiant. Diolch i'r gwesty, y staff a thenant y tir am eu paratodau ar ein rhan. Diolch arbennig i Gyngor Gwynedd, drwy Cist Gwynedd, am eu cefnogaeth i wneud yr holl fenter yn bosib. Hefyd i nifer eraill: Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Brydeinig a'i gynrychiolydd, Derek, am eu cyfleusterau saethu a'u hyfforddwyr; Cyfoeth Naturiol Cymru am eu tanc arddangos pysgod lleol; Coleg Glynllifon (Llandrillo/Meiron Dwyfor) am eu carafan hysbys, ac i Sarah a'i chriw am eu cyflenwad di-ddiwedd o'r te, coffi a bisgedi oedd yn llifo o'r stondin - a dyna beth anghyffredin heddiw oedd cael diwrnod a neb yn gorfod rhoi eu llaw yn eu poced. Pa bryd welwyd diwrnod o'r fath am ddim tybed.

Ymysg yr holl ddiolchiadau rhaid peidio anghofio mai'r Gymdeithas oedd wedi trefnu'r diwrnod a gweithgareddau'r clwb oedd y ffocws. Diolchiadau arbennig i'r rhai a fu'n cefnogi: fel criw y ddeorfa a fu'n magu a stocio'r pysgod a chlirio'r glannau. Hefyd Gwyn, John, Closs, Hefin, Edwin, Gareth a Harry a fu'n gofalu am weithgareddau'r diwrnod.

Dilynant hyn i gyd yw ein bod yn dechrau arni i drefnu diwrnod yn ystod gwyliu'r Sulgwyn 2016. Bwriedir cael tipyn mwy ar bysgota, saethu, gyda diddordebau eraill cefn gwlad i'w mwynhau. Rhywun â diddordeb mewn cymryd rhan?

Mater llai pleserus yw saga hirfaith Llyn Padarn. Cofiwch, mae problemau'r llyn yn ymestyn o 1992, a'r bennod ddiweddaraf yn rhedeg ers 2009. Diolch i'r drefn mae rhyw ddiweddglo i'w weld ar y gorwel gyda dyddiadau gwrandawriad llys wedi eu cyhoeddi fel 24 - 26 Tachwedd eleni. Ond, unwaith eto, rwy'n deall fod un o'r diffynydion yn ceisio gohirio ymhellach. Y sicrwydd dwi wedi ei gael yw y bydd yr achos wedi ei glywed cyn y Nadolig eleni.



Tra bod hyn yn mynd ymlaen mae Dwr Cymru wedi bod yn brysur yn cyhoeddi eu bod yn cyfrannu'n hael at wella mynediad i'r llyn - mynediad medda nhw i hwylio, canwio a hwylyfyrddio. Dim cyfraniad o gwbl at sicrhau dyfodol y torgoch na physgod eraill y dalgylch. Felly pwy goblyn sy'n gyfrifol am yr holl drafferthion. Bosib iawn mai'r criw chwaraeon dwr 'ma ydi'r broblem, gan mai nhw ydi'r unig rai sydd i'w weld yn cael iawn gan y cwmni. Cawn weld be fydd penderfyniad y llys. Beth am Cyfoeth Naturiol Cymru, ein plismon amgylcheddol - dwi 'di dweud digon am rhain.

Yn ystod cyfarfod Grwp Pysgodfeydd Gwynedd yn Nhrawsfynydd ar 10ed. Mehefin cafwyd adroddiad yn ymwneud â phrinder eogiaid yn rhedeg afonydd Cymru. Efallai bydd yn rhaid dod a rheol i'w gwneud yn drosedd i gadw eog, a bydd yn rhaid dychwelyd pob un yn ôl i'r afon. Pan fyddaf yn clywed peth fel hyn gan un o brif swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru byddaf yn crafu fy mhen ac yn meddwl - pwy goblyn sydd wedi bod â chyfrifoldeb am warchod a gwella ein pysgodfeydd dros y 35mlynedd rwyf i wedi bod yn gysylltiedig â gweinyddu yn y byd pysgota. Yr ateb yw Cyfoeth Naturiol Cymru a'u rhagflaenwyr. Mae pob un wedi methu â chyrraedd y marc ac wedi gwneud smonach hollol o'u cyfrifoldebau. Mewn unrhyw faes arall mi fuasai'r rhan fwyaf o'r rheolwyr 'ma wedi cael ei symud i ddyletswyddau eraill.

Tra ar benderfyniadau dadleuol y corff yma, un o'r mwyaf di-reswm yn ddiweddar yw y penderfyniad o atal stocio eog a brithyll môr. Does dim ystyriaeth wedi ei roi i afonydd fel y Seiont sydd wedi ei amddifadu o leoliadau magu - fel Llyn Peris ac afonydd eraill yn gysylltiedig â gorsaf Dinorwig. Does dim ateb i hyn ond o leiaf mae rhyw lygedyn o obaith gan fy mod yn un o rhyw hanner dwsin drwy Gymru sydd wedi cael gwahoddiad i gyfarfod ar 2-3 Medi yng Nghaerdydd i gael esboniad manwl o'r polisi newydd. Efallai caf roi drosodd ein hachos ar broblemau'r ardal. 'Sgwn i a wnaiff rhywun wrando!

Dim llawer o drefn ar y sgota dros y mis, yr afonydd yn isel a dim llawer yn mentro allan. Dal i dderbyn gwybodaeth o bysgota anghyfreithlon ar lynnoedd Padarn a Dywarchen, mae un llygedyn o oleuni gyda phlismona'r fath ymddygiad. Gwybodaeth sy'n dod law fod 'Operation Leviathan' wedi cael eu mabwysiadu gan rai heddluoedd yng Nghymru ac rwy'n gobeithio bydd symudiad i Heddlu Gogledd Cymru symud ymlaen i ymuno â'r bartneriaeth. Mwy o wybodaeth i ddod maes o law.

Huw Price Hughes.



Chwaraeon



Lois Regan

Cafodd Lois Regan o Ddeiniolen y ffrainc o gael ei dewis yn rhan o garfan Merched Cymru dan 18 oed yn ddiweddar i fynd i ddrnhamaint yn Macedonia.

Roeddent yn chwarae 3 gêm, y gem gyntaf oedd yn erbyn Croatia a cholli wnaeth y genod o 2-1. Ond yn y gêm yn erbyn Macedonia, curo 3-1: eilydd oedd Lois ond daeth hi ar y cae ar ôl 85 munud a sgorio y drydedd gôl ar y 92 munud. Wedyn, yn y gêm olaf yn erbyn Moldova mi sgoriodd gôl eto a'r genod yn curo 4-1.

Mae Lois bron â gorffen ei blwyddyn gyntaf i lawr yn y John Madejski Academy yn Reading, ac yn mynd yn ôl yno wedi dod adref o Macedonia.



Peldroedwyr buddugol.

Mae tim bechgyn Llanrug Unedig wedi bod yn llwyddiannus iawn mewn dau ddrnament peldroed diweddar. Roeddent yn fuddugol ym Mhenrhyndeudraeth, gan guro Llangefni yn y ffeinal. Jack Burman o dim Llanrug enillodd wobwr chwaraewr y trnament. Roedd y tim hefyd yn fuddugol yn Llanrug ddiwedd y mis, gan guro Amlwch yn y ffeinal.



Tîm sgio Llanrug

Yn ddiweddar bu rhai o bobl ifanc Llanrug sy'n aelodau o Glwb Sgio Gogledd Cymru yn cystadlu mewn cystadleuaeth sgio ym Mhlas y Brenin, Capel Curig.

Dros y tymor bydd pedair cystadleuaeth i gyd ac mae dwy eisioes wedi bod. Mae un categori ar gyfer disgyblion cynradd ac un ar gyfer disgyblion uwchradd.

Newydd ddechrau sgio mae mwyafrif yr aelodau ac maent wrth eu boddau ar y llethr yn datblygu eu sgiliau wrth ymarfer ym Mhlas y Brenin yn wythnosol.

Cafodd Osian, Heledd ac Alis eu cyfwrdd am eu profiadau sgio ar gyfer rhaglen 'TAG' yn ddiweddar ac fe'i ddarlledwyd ar S4C mis diwethaf.

Dyma ganlyniadau'r ddwy gystadleuaeth a gynhaliwyd eisoes: Mis Mawrth - Uwchradd:

Bechgyn o dan 16oed – 1af Osian Evans

Genethod o dan 14oed – 1af Heledd Swyn, 2il – Alis Jones

Mis Mawrth - Cynradd:

Bechgyn o dan 12oed – 1af - Cameron Shaw

Genethod o dan 10 oed – 1af - Izzy Shaw

Genethod o dan 8 oed – 3ydd - Alaw Swyn

Tîm Llanrug – 2il – Cameron Shaw, Izzy Shaw ac Alaw Swyn

Mis Mai - Uwchradd:

Bechgyn o dan 16oed– 1af Ryan Joyce, 2il - Osian Evans

Bechgyn o dan 14oed – 1af Gwion Evans

Genethod o dan 14oed – 1af Heledd Swyn, 2il – Alis Jones

Tîm Llanrug – 1af - Osian Evans, Gwion Evans, Heledd Swyn ac Alis Jones

Mis Mai - Cynradd:

Bechgyn o dan 12oed – 1af - Cameron Shaw, 2il – Elis Edwards

Genethod o dan 12oed – 3ydd – Mali Brookes

Genethod o dan 10 oed – 1af - Izzy Shaw

Genethod o dan 8 oed – 1af - Alaw Swyn

Tîm Llanrug – 2il – Cameron Shaw, Izzy Shaw ac Alaw Swyn

Yn cystadlu hefyd yr oedd Twm Brookes.

Bydd canlyniadau terfynol y gyfres yn cael eu cyhoeddi yn rhifyn Medi.

Beicio Eryri.



Roedd Etape Eryri yn llwyddiant mawr eto eleni, gyda channoedd o feicwyr yn troi allan i ddilyn tri chwrs gwahanol o amgylch Eryri, neu yn achos ugain ohonynt, i reidio pob un o'r tri chwrs, pellter o dros ddau gant o filltiroedd! Dyma'r trydydd tro i'r achlysur gael ei gynnal, ac unwaith eto roedd Syr David Brailsford yno i gefnogi – a beicio. Seren yr Etape Mawr fel yn y ddwy flynedd flaenorol oedd Gareth McGuinness o Lanrug, a gwblhaodd y cwrs mewn llai na phump awr, a hynny mewn amgylchiadau anodd iawn eleni, oherwydd y gwyntoedd croes cryfion a'r glaw. Seren arall i'w wyllo i'r dyfodol yw Deio Garton Jones o Dan y Coed. Er mai tair ar ddeg oed yn unig yw Deio, cwblhaodd yr Etape Bach mewn 3 awr a 46 munud. Roedd yn golygu beicio bron i hanner can milltir gan gynnwys dringfeydd Drws y Coed, Nant Gwynant a gelltydd Ceunant (heibio'i gartref). Unig siom Deio oedd fod Syr David Brailsford wedi gorffen ychydig o'i flaen! Llongyfarchion i bawb arall o'r fro a fu'n cymryd rhan yn yr achlysur.

CYCHWYN DA

Dyna yw hanes yr ail-enedig Glwb Criced Caernarfon. Gwelais eu gêm gyntaf ar faes Tŷ Newydd yng Nghyngraig Canol-Wythnos Môn/Arfon. Cawsant fuddugoliaeth ac roedd y cadeirydd Andre Lambrecht wrth ei fodd. Braf gweld criw o gefnogwyr yn eu dilyn hefyd. Yn amlwg mae ysbryd yr hen Fron Dinas yn dal i gyniwa'r. Os oes gan rhywun ddiddordeb mewn ymuno cysylltwch ac Andre neu Iwan Roberts.

Gwellhad Buani'r Golygydd Chwaraeon.

Ers i rifyn Mehefin o'r "Eco" ymddangos, mae Richard Ll. Jones wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Christie, Manceinion, ac erbyn hyn wedi dychwelyd i Fethel. Dymunwn adferiad buan a llwyr iddo. (Ac yn ôl adroddiadau am berfformiadau tim criced Bangor, mae posibilrwydd y bydd yn rhaid iddo ail-afael yn y gamp honno yn hytrach na thirmona a sylwebu!). Dymuniadau gorau Mêt!

Ras 10 cilomedr Deiniolen yn llwyddiant lleol

Er mai ras ffordd yw hon, mae dwy allt serth iawn yn rhan o'r cwrs, ac felly'n ffafrio dringwyr! Daeth dros gant o redwyr i herio'r cwrs caled, ac yr oedd y tywydd yn ffafrio'r rhedwyr. Aeth y brif wob'r i Loegr, gyda Ryan Parker o Bedford yn ennill (roedd ar ei wyliau'n yr ardal). Elliw Haf o Glwb Eryri enillodd ras y merched. Roedd digon o gymeriadau lleol hefyd yn cymryd rhan, a rhaid canmol trigolion y pentref am droi allan i stiwardio a chefnogi. Bron na ellir dweud fod mwy o gotiau melyn nac o redwyr yn y pentref ar y noson!

Shaun Davies oedd y rhedwr lleol cyntaf, a daeth yn ddegfed yn y ras mewn amser o 39 munud.

Arwel Lewis o Fethel oedd y cyntaf yn yr adran i ddynion dros 50 oed, lai nag ugain eiliad ar y blaen i Rhys ab Elwyn, a ddaeth yn ail yn yr un adran, ac i gymeradwyaeth arbennig gan ddisgyblion Ysgol Gwaun Gynfi.

Canmoliaeth hefyd i Deian Williams o Lanrug yn ei ras 10c gyntaf erioed, ac yntau'n ddim ond pymtheg oed, yn gorffen yn drydydd dan 18oed mewn amser da iawn o 46 munud.



Rhedwr y mis yn ddiau oedd Gareth Hughes o Benisarwaun. Mae wedi arbenigo mewn rhedeg rasys pellter hir ar fynyddoedd, a daeth llwyddiant ysgubol i'w ran yn ystod Mai a Mehefin. Cychwynnodd gyda buddugoliaeth yn Ras Moel Eilio; ras gymharol fer yn ol ei safonau! Mae'n cynnwys dringo o Lanberis i gopa Moel Eilio, cyn parhau ar hyd y grib dros y Foel Gron, Y Foel Goch a Moel Cyngorion, cyn disgyn yn ol i Lanberis. Mae tua wyth milltir o hir, ond yn cynnwys dros 3,000 troedfedd o ddringo. Cwblhaodd Gareth y ras mewn llai na 70 munud, ddau funud ar y blaen i'r rhedwyr nesaf. Yn yr un ras, roedd Dyfed Thomas, Llanrug yn drydydd, ac yn gyntaf dros 40 oed.

Roedd yn argoeli'n dda i Gareth ar gyfer dwy ras llawer caletach i ddilyn. Mae ras 1,000 metr Eryri yn cael ei chyfrif yn un o glasuron y rasys mynydd. Gan gychwyn yn agos i'r traeth yn Abergwyngregyn, rhaid dringo dros y Carneddau, Tryfan, y Glyderau, a diweddu ar gopa'r Wyddfa, gan ymweld a phob copa sydd dros 1,000 metr o uchder. Unwaith yn rhagor, a hynny ar ddiwrnod hynod o wyntog, cocncrodd Graeth yr elfennau a'r rhedwyr eraill i gipio'r fuddugoliaeth.

Wythnos yn ddiweddarach roedd yn cystadlu yn Ras y Vegan Ultra, ras sydd wedi ei chynnwys yng nghyffres Pencampwriaeth Skyrunning Prydain. Mae'n 55 cilomedr o ras (mwy na marathon!), ond hefyd yn golygu dringo pob un o'r pymtheg copa yn Eryri sydd dros 3,000 o droedfeddi o uchder! Erbyn diwedd y ras byddai Gareth wedi dringo bedair gwaith uchder yr Wyddfa. Cafodd Gareth ei ddyfarnu'n gyntaf mewn amser o ychydig dros saith awr a hanner, er fod rhedwr arall wedi gorffen wrth ei gwt a chael yr un amser ag ef.

Ac ar y trydydd Sadwrn, - na doedd o ddim yn rasio, ond rhedodd i gopa Moel Lefn i gynorthwyo fel stiward yn Ras Pedol Pennant. Llongyfarchiadau iddo ar fis arbennig, gan ddymuno llwyddiant yn ystod gweddill y tymor.

Cyffres Nos Fawrth.

Daeth llwyddiant yn Ras Y Garn, Rhyd-ddu i dad a merch o'r Waunfawr, gyda Paul Jenkinson yn ennill (a hefyd yn gyntaf dros 40 oed) a Bronwen, y ferch yn gyntaf dan 18 oed. Torrwyd record y cwrs gan y ddau ohonynt.

Yn Ras Tal y Mignedd, Nantlle ar y nos Fawrth ddilynol, Matthew Roberts o Lanberis oedd yn fuddugol, a thorrwyd record y cwrs ganddo yntau hefyd. Bu Matthew hefyd yn llwyddiannus yn Druisdeer yn yr Alban yn gynharach y mis, gan ddod yn wythfed yn ras Pencampwriaeth Rhedeg Mynydd Prydain.

Mae rasys nos Fawrth eleni wedi bod yn nodedig am y ffaith fod cymaint o recordiau wedi eu torri, a hynny bron ym mhob categori oedran.

NEWID DYDDIAD TLWSYRECO

Oherwydd amgylchiadau personol bu'n rhaid gwneud un newid i'r trefniadau ynghlyn a Thlws yr Eco eleni. Bydd y gystadleuaeth dan 9 yn aros ar nos Fercher, Gorffennaf 8 ar faes Eithin Duon, Llanrug. **Mae'r gystadleuaeth dan 11 yn symud i NOS WENER, GORFFENNAF 10 ar GAE'R DDÔL, LLANBERIS.** Bydd y ddwy noson yn dechrau am 6pm.

Gobeithio fod y timau i gyd wedi cofrestru erbyn hyn.

Y RHEDWYR ODDI CARTREF

Mae'n dda cadw 'trac' weithiau ar blant yr ardal sydd wedi crwydro bellach yn dilyn gyrfaedd. Dau o gyn-blant Stâd y Ddol ym Methel gaiff y sylw – y ddau ar un adeg yn byw 5 drws oddi wrth ei gilydd, a'r ddau yn gyn ddisgyblion Ysgolion Bethel a Brynrefail.



Y ferch yn gyntaf. Trodd Anest Williams gynt yn Anest Muller bellach wedi priodi a gwr o Rotweil, Yr Almaen. Yng Nghaer mae hi'n byw ac yn aelod o glwb rhedeg West Cheshire. Dyma fraslun o'i gyrfa athletaidd yn ei geiriau ei hun.

“Roeddwn i'n meddwl fy mod wedi cyrraedd pinacl fy nghallu rhedeg dros 20 mlynedd yn ôl drwy gael bathodyn traws gwlad 4 seren (er mawr sioc i athrawon a chyfoedion).

Mis Hydref diwethaf penderfynais ail-gydio yn y diddordeb a chymeryd rhan unwaith eto mewn räs traws-gwlad. Rhaid cyfaddef fod y baned a theisen ar y diwedd yn rhan o'r apêl. Yn ystod fy nhymor cyntaf 'yn ôl' daeth ambell lwyddiant. Cefais 4ydd. safle ym Mhencampwriaeth Gogledd Cymru, 6ed safle yn nhabl unigol Cynghrair traws-gwlad Gogledd Cymru, a'r 8ed. safle ym Mhencampwriaeth Cymru.

Gwell byth oedd y gwellhad yn yr amserau ar y tarmac. Cefais y wobr gyntaf yn fy grwp oedran yng Nghynghrair y Gororau 2014/5. Yna'r ail safle ym Mhencampwriaeth 10 milltir Gogledd Cymru. Byddaf yn cynhyrchioli tîm y Gogledd am y tro cyntaf yn ras 10K Stone St. Michael ddiwedd Mehefin.”



Yna'r bachgen – Owain Sion. Gwnaeth Owain sawl cyfraniad ym myd y campau yn lleol. Roedd yn chwaraewr rygbi addawol i dîm ieuenctid Caernarfon. Ym myd y bêl-droed ar wahan i ennill tlysau gyda thîm Ysgol Brynrefail bu'n chwaraewr canol cae awdurdodol i dîm Bethel gipiodd y Junior Cup. Wedi iddo symud i'r De bu'n chwarae i dîm Llansawel yng Nghynghrair Cymru. Mae'n byw gyda'i wraig Alison a'i fab Elis yn Birchgrove, Abertawe. Mae'n gweithio fel fferyllydd yn Ysbyty Treforys ac yn darlithio ym Mhrifysgol Abertawe.

Mae yn aelod o glwb Run4all, Castell Nedd. Y llynedd rhedodd y rhan o räs gyfnewid Cestyll Cymru o Gaernarfon i Benygroes. Eleni, rhedodd yr ail gymal sef y 10.5 milltir o Benygroes i Griccieth. Rhedodd Farathon Llundain 2015 gan godi arian at Gymdeithas Osterporosis. Roedd yn falch o'i amser o 3awr 24 munud.

Diolch i'r ddau am rannu'r profiadau a dymunwn yn dda iddynt yn eu gyrfaedd ar ac oddiar y trac.

BETH WNAWN NI A SEPP?

Mae rhywbeth yn bod ar yr hen fyd yma. Bancwyr yn twyllo o filiynnau ac eto'n derbyn bonws. Llywodraeth Nepal yn gwrthod derbyn nwyddau dyngarol heb i'r gyrrwr dalu treth arno. A F.I.F.A. yn talu \$5miliwn i Gymdeithas Pêl-droed Eire fel iawndal am 'drosedd amlwg' (na welodd y dyfarnwr) gan Henry a alluogodd Ffrainc i gadw y Gwyddelod allan o rowndiau terfynol Cwpan y Byd. Ar y slei wrth gwrs. Arian i helpu ail-wampio Stadiwm Aviva yn Nulyn ydoedd wrth gwrs. Yna'r arian a drosglwyddwyd i Gymdeithas Bêl-droed y Caribi i hyfforddi pêl-droedwyr cynhenid yr ynysoedd gan eu cyd-frodyr yn Ne Affrig fel cildwrn am dderbyn llwyfanu Cwpan y Byd. Ni welwyd unrhyw dystiolaeth o'r gwariant ar lawr gwlad.

Ond beth am y compo yma. Onid oes gan Gymru gais am arian yn dilyn llawiad Joe Jordan ar Anfield. Neu Loegr wedi 'llaw Duw' gael ei fenthg i Maradona. A dwi'n dal i feddwl fod rhywbeth yn 'dodgy' am ail gôl Llanberis (Derlwyn a 'sgoriodd' dwi'n meddwl) a roddodd gêm gyfartal i Lanber yn rownd derfynol cwpan Alves yn 1969. I wneud pethau yn waeth Llanberis yn curo'r Normal 4-2 yn yr ail-chwarae â Cwil Bach yn cael gêm wych ar yr Oval. Ie, rhamant unrhyw gamp yw edrych yn ôl, cofio gemau a chymeriadau. Ond pan mae'r gamp dan reolaeth dwylo amheus yna mae'n fater arall.

CYMRU 1 GWLAD BELG 0

Oeddwn, roeddwn i yno ym merw crochan Stadiwm Dinas Caerdydd. Fel miloedd eraill bydd yn noson â erys yn hir yn y cof. Mae'n gwestiwn os bu y fath 'gefnogaeth' i dîm Cymreig ers sawl blwyddyn. A hynny â naws Gymreig. Bydd llawer yn cyfeirio at y datgyniadau o'r Anthem Genedlaethol yn ystod yr ail hanner pan oedd gôl Cymru dan warchae. Yn sicr mae'r slogan mae'r Gymdeithas Bêl-droed wedi ei mabwysiadu ar gyfer y gystadleuaeth – Gyda'n gilydd yn gryfach- yn adlewyrchu y cysylltiad positif rhwng y chwaraewyr a'r dorf ar hyn o bryd.

Rwyn cyfaddef nad oeddwn yn gweld fawr o obaith o edrych yn ôl ar gemau cyntaf Coleman wrth y llyw. Rwyn falch cydnabod erbyn hyn bod Coleman, Osian Roberts a'r tîm hyfforddi wedi datblygu ffordd o chwarae sy'n seiliedig ar amddiffyn cadarn, ac yna drwy basio celfydd Ramsey ac Allen a chyflymdra Bale i wrth ymosod yn llwyddianus. Dim ond dwy gôl a ildwyd yn y chwe gêm – un o gic rydd uniongyrchol ac un o'r smotyn.

Roeddwn yn gwisgo fy nghrys Cymru – fersiwn 1958 – ar gyfer y gêm. Gobeithio y gwelir yr un llwyddiant gyda'r garfan bresennol. Does dim amheuaeth am unoliaeth a phendantrwydd y garfan hon. Mae Ashley Williams yn gapten ysbrydoledig a Bale yn un sy'n tanio'r dorf.

Braf hefyd oedd gweld uchafbwyntiau safon goliau Uwch Gynghrair Cymru ar y sgrin fawr yn ystod yr egwyl. Un siom i mi oedd gorfod dweud wrth rhai o'r cefnogwyr o'm cwmipas pwy oedd y timau a'r chwaraewyr. Gallaf ond gobeithio bydd y llwyddiant presennol – a chyrraedd Ffrainc wrth gwrs – yn cynyddu nawdd a ffioedd teledu y gall ei anelu wedyn at wreiddiau'r gêm leol ac i'r Gynghrair Genedlaethol.

Fe gyfeiriodd sawl un mai 30 000 o bobol'ffwtbol' go iawn, oedd yn y stadiwm, nid rhai gyda tocynnau cwmniau neu ffansi dress. Yn ddiamheuol y bechgyn a merched sydd ar y terasau yn gwyllo eu timau – proffesiynol neu leol - o Sadwrn i Sadwrn oedd y mwyafrif llethol. Oes mae gwahanol ffyrdd o ddangos ein cenedlaetholdeb. Roedd un ffordd yn amlwg nos Wener. Ond ein dyled mwyaf yw i'r garfan o gefnogwyr sydd wedi aros yn driw i'r tîm cenedlaethol a phêl-droed Cymru ar wahanol lefelau dros y cyfnodau llwm. Ydyn, 'da ni yma o hyd' ac eleni daeth yr awr. Mae'n hysbys hyd yn oed yma yng Ngwynedd pan fod gemau Lloegr a Chymru ymlaen ar yr un pryd , mewn rhai tafarnau gemau Lloegr sy'n cael ei dangos. Prysured y dydd pan hawliwn eto ein lle.

‘ Gyda'n Gilydd yn Gryfach.’

Chwaraeon

Cychod Celtaidd - Clwb Rhwyfo Llanberis



Mae Clwb Antur Dyffryn Peris, a sefydlwyd ym mhentref Llanberis, wedi bodoli ers 15 mlynedd ac yn cynnig sesiynau ceufadu, rhwyfo cychod agored, dringo, cerdded a llawer mwy ar gyfer plant ac oedolion lleol.

Blwyddyn yn ôl, ar ôl amser maith o waith caled gan aelod o'r clwb, derbyniodd y clwb grant a oedd yn galluogi'r Clwb i brynu 2 Cwch Hir Celtaidd sydd yn gychod enwog iawn ar arfordir Cymru.

Yn ddiweddar, mae'r clwb wedi ymuno a Chymdeithas Rhwyfo Mor Cymru ac wedi cystadlu mewn cystadlaethau rhwyfo ym Mhorthmadog ac ym Miwmares, gan lwyddo i ennill troffi yn y ddau ddigwyddiad. Clwb Rhwyfo Llanberis ydi'r unig glwb mewndirol yn y Gynghrair Gogleddol.

Mae aelodau o'r clwb yn cystadlu yn y 'Great River Race' yn Llundain ym mis Medi ble byddent yn rhwyfo fyni'r afon Tafwys. Ras 21.6 milltir, sydd yn denu dros 330 o gychod traddodiadol o bedwar ban byd.

Mae'r clwb yn gwahodd aelodau newydd i gymryd rhan mewn sesiynau ceufadu neu rhwyfo. Mae croeso cynnes i unigolion gymryd rhan mewn sesiynau rhwyfo cymdeithasol neu rhai sydd yn awyddus i gystadlu.

Cost y sesiwn yw £3.00 gyda ffi aelodaeth o'r Clwb yn £30.00 y flwyddyn. Cewch fynychu dwy sesiwn heb fod angen ymaelodi.

Am fwy o fanylion, cysylltwch â Sharon ar 07513 459150

Pencampwraig sbrint Cymru



Yn diweddar denodd Pencampwriaethau Trac a Maes Gogledd Cymru, a gynhaliwyd yn Nhrefn, Bangor, bron i 200 o athletwyr gorau'r rhanbarth. Ymhlith y cystadleuwyr oedd Anya Williams, 12 oed, o Lanrug.

Dechreuodd Anya ei diwrnod prysur drwy hawlio medal efydd annisgwyl am ei hymgais naid hir o 3.94m.

Yn ddiweddarach yn y dydd, ar ôl yn ddiogel negodi ras ragbaratoi anodd i gyrraedd y rownd derfynol, aeth y sbrintiwr ifanc Clwb Trac a Maes Menai ymlaen i frwydro mewn cystadleuaeth benderfynol i gadw ei theitl rhanbarthol 100m yn llwyddiannus. Erbyn diwedd y dydd roedd Anya hefyd wedi ychwanegu y fedal aur am y ras 200m mewn amser gorau personol newydd o 28.81 eiliad.

Mae safon y athletwraig leol y tymor hwn wedi ei rhoi ar frig y safleoedd Cymreig ar gyfer y rasys 75m a 100m.

Fel roedd yr Eco yn mynd i'r wasg daeth y newydd fod Anya bellach yn bencampwraig Cymru, pan enillodd y rasys 100 metr a 200 metr - dwy fedal aur. Ein llongyfarchion iddi ar ei llwyddiant.

Medal Arian ym Mhencampwriaeth Prydain



Ychydig flynyddoedd yn ôl roedd yr "Eco" yn llongyfarch Gareth McGuinness ar ddod yn bencampwr Cymru mewn rasio beics ar y ffordd. Bu ond y dim iddo ddod yn bencampwr Prydain yn ystod y mis diwethaf, a dim ond o drwch blewyn y methodd a chipio'r fedal aur ym Mhencampwriaeth Beicio Meistri Prydain. Ein llongyfarchiadau iddo ar ei gamp.